# Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

## Datganiad Cyfrifon a Archwiliwyd

2021/22



## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Datganiad y Cadeirydd | 3 |
| Adroddiad Naratif | 5 |
| Datganiad Cyfrifoldebau am y Datganiadau Ariannol | 15 |
| Tystysgrif y Prif Swyddog Ariannol | 16 |
| Adroddiad Archwilio | 17 |
| Polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir wrth ffurfio'r cyfrifon | 22 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 28 |
| Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn | 29 |
| Mantolen | 31 |
| Datganiad Llif Arian Parod | 32 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 33 |
| Cyfrifon Grŵp | 54 |
| Rhestr o Dermau Cyfrifeg | 68 |

## Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd - Datganiad y Cadeirydd

*"Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) yn rhaglen unigryw o weithio'n gydweithredol sy'n ceisio galluogi newid economaidd trawsnewidiol, trwy fuddsoddiad a dargedir mewn seilwaith, arloesi a dulliau a yrrir gan heriau o fynd i'r afael â phroblemau diwydiannol a chymdeithasol. Mae'n fuddsoddiad mewn pobl a lleoedd a'r nod yw dod â thegwch a chyfleoedd i bawb, lle bynnag maent yn byw yn y rhanbarth.*

*Mae'n adeiladu ar dreftadaeth falch y rhanbarth, pa mor ddymunol yw byw yno, ei allbwn economaidd sydd eisoes yn sylweddol a'r synnwyr unigryw o le. Mae'n ceisio cyfoethogi mewn ffyrdd eraill, gan wella gwasanaethau cyhoeddus, cryfhau ymgysylltu â'r gymdeithas ddinesig a galluogi ein gweithlu i addasu i'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen er mwyn gyrru diwydiannau'r dyfodol. Mae ein Bargen Ddinesig wedi'i hadeiladu ar bartneriaeth ac yn meithrin cyfreithlondeb democrataidd trwy gydbwyso arweinyddiaeth leol gref gydag ymgysylltu dwfn â diwydiant a busnes.*

*Mae ein Bargen Ddinesig yn addasu i'r newidiadau parhaus a welwn o'n cwmpas a gyda'r effeithiau dychrynllyd ar yr economi bellach yn dod yn fwy gweladwy gan fod cyflwyno'r broses frechu dorfol yn ein galluogi i edrych ymlaen, bydd cynnal y gallu i addasu ac ymateb yn hanfodol. Drwy gyfnod y pandemig, nid yn unig y mae ein strwythurau a'n systemau llywodraethiant wedi'u profi – ond maent wedi gwella hefyd. Wrth i'r cyfyngiadau ddod i ben, mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gweithredu mewn amgylchedd llawer mwy ystwyth lle mae dulliau digidol, wyneb yn wyneb a hyblyg yn cyd-fodoli. Mae'r ymagwedd hwn yn parhau i sbarduno parhad o ddiwylliant cynhyrchiant uchel – sy'n hanfodol, nawr bod Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CBC) De-ddwyrain Cymru hefyd yn weithredol – er ar sail gyfyngedig ar hyn o bryd.*

*O ran cyflawni, mae 2021/22 wedi bod yn flwyddyn dyngedfennol wrth atgyfnerthu cynnydd ac adeiladu'r bibell ddatblygu a'r rhaglen ymhellach. O gymeradwyaethau i Media Cymru, yr Ganolfan Arloesi Seiber, gweithredoli'r Gronfa Safleoedd Strategol ac yn sylweddol, cyfnewid contractau ar werthu hen Orsaf Bŵer Aberddawan – mae'r cyfle a osodwyd yn tyfu. Braf hefyd, drwy Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2021, oedd cyhoeddiad Canghellor y Trysorlys ar flaen gyllido' Bargen Ddinesig P-RC - gan ddwyn £120M ymlaen i ddistyllu cyflawniad y cytundeb i gyfnod cyffredinol o 15 mlynedd.*

*Hyd yn hyn, rydym wedi canolbwyntio ar adeiladu momentwm Mae'r ffocws nawr yn troi at gyflawni. Mae egwyddorion Enillion ar Fuddsoddiad, manteisio i'r eithaf ar adnoddau eraill a chyd-fuddsoddi yn parhau – ac er bod hyn yn golygu y dylid defnyddio buddsoddiad P-RC unwaith yn unig a phan fydd eraill hefyd yn buddsoddi – rydym yn cydnabod y rheidrwydd i sicrhau bod rhaglenni cymeradwy yn cyflawni orau y gallant. I'r perwyl hwn, yn 2021/22, mae P-RC wedi dechrau datblygu ei fframwaith ar gyfer gwireddu buddion, ac rwy'n edrych ymlaen at weld hyn yn cael ei gyflwyno yn y flwyddyn i ddod.*

*Mae ein cynllun busnes strategol pum mlynedd yn parhau i lywio ein hamcanion a'n nodau. Gan weithio ochr yn ochr â'n partneriaethau rhanbarthol, ac yn arbennig y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol – rydym yn edrych ymlaen at drosi hyn yn Gynllun twf Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol diwygiedig yn 2022/23. Bydd hyn yn allweddol wrth i waith barhau i lunio CBC de-ddwyrain Cymru a chreu agenda o gyfle a rennir o amgylch buddsoddiad newydd megis y Cronfeydd Codi'r Gwastad a Ffyniant Gyffredin.*

*Un o nodweddion allweddol 2021/22 hefyd o ran llywodraethiant fu datblygiad gwell prosesau ar gyfer llywodraethiant a monitro rhaglenni - sy'n parhau i 2022/23. Bydd hyn yn esblygu i'n Strategaeth Fuddsoddi ddiwygiedig yn 2022/23 ac yn gosod y cyd-destun ar gyfer sut yr ydym yn y pen draw, yn 'codi a symud' draw i'r Cydbwyllgor Corfforaethol. Mae penodi arweinydd penodol ar gyfer Llywodraethiant a Phennaeth Llywodraethiant, Cyfathrebu a Pholisi newydd – yn helpu i atgyfnerthu'r pwysigrwydd sydd ynghlwm wrth hyn.*

*Wrth i ni edrych ymlaen, mae'n amlwg bod 2021/22 wedi dechrau paratoi P-RC ar gyfer yr hyn sydd o'n blaenau o ran adfer ar ôl y pandemig a phwysigrwydd bod hyn yn deg ac yn gyfartal – a'r argyfwng costau byw, sy'n cael ei ategu gan faterion ynni a diogelwch bwyd ac yn argyfwng cost cynnal busnes. Mae'r risgiau hyn yn cyflwyno bygythiadau sylweddol posibl, ac felly mae'n fwy hanfodol nag erioed bod ein Strategaeth Risg Menter yn fframwaith deinamig a byw y gallwn reoli a lliniaru pwysau drwyddo.*

*Mae'r holl weithgarwch arwyddocaol hwn yn ychwanegu gwerth ac yn cyfoethogi ein taith a'n naratif. Rydym yn adeiladu'r cymhwysedd i hunanwerthuso a bod yn fwyfwy hunan-ymwybodol. O'n tîm cynghori proffesiynol i'n partneriaid, ein cyrff cynghori a'n rhanddeiliaid yr ydym yn ymgysylltu â hwy ac yn cydweithredu â hwy bob dydd, rydym yn adeiladu dull rhwydweithiol ac integredig. Po fwyaf o leisiau ac amrywiaeth gorau oll ac rwy'n teimlo'n sicr bod y model o arweinyddiaeth hynod addasol a chydweithredol yr ydym yn ei meithrin – yn un effeithiol sy'n gallu bodloni anghenion a dyheadau'r rhai y mae'n fraint i ni eu gwasanaethu."*



Y Cynghorydd Anthony Hunt

Cadeirydd, Bargen Ddinesig P-RC

**Adroddiad Naratif**

*Cyflwyniad*

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) yn cynnwys y 10 ardal awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru: Blaenau Gwent; Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili; Caerdydd; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Casnewydd; Rhondda Cynon Taf; Torfaen; a Bro Morgannwg. Mae ganddi boblogaeth o 1.5 miliwn sy'n cyfateb i bron i hanner poblogaeth gyfan Cymru, sy'n cyfrif am tua 50% o gyfanswm allbwn economaidd economi Cymru a 49% o'r holl swyddi yng Nghymru ac mae ganddi dros 38,000 o fusnesau gweithredol. Mae'n rhanbarth amrywiol sy'n cynnwys dwy ddinas; Caerdydd a Chasnewydd, amrywiaeth o drefi marchnad, cadarnle diwydiannol cymoedd de Cymru, cymunedau gwledig, a llain arfordirol.




Mae P-RC yn ardal lle mae pobl eisiau byw a gweithio. Mae'n gartref i rai o'r lleoedd sy'n tyfu gyflymaf a'r rhai mwyaf cystadleuol yn economaidd yn y Deyrnas Gyfunol, ar y cyd â rhai o'r rhai lleiaf cystadleuol a mwyaf difreintiedig.

Mae'r Fargen Ddinesig yn nodi dull trawsnewidiol o ran sut aiff

P-RC ati i gyflawni graddfa a natur y buddsoddiad sydd ei angen i gefnogi uchelgeisiau twf a blaenoriaethau strategol yr ardal. Yn ganolog i hyn mae'r Gronfa Fuddsoddi 20 mlynedd gwerth £495 miliwn, y bydd P-RC yn ei defnyddio i fuddsoddi mewn ystod o brosiectau mewn sectorau blaenoriaeth i greu hyd at 25,000 o swyddi newydd a chyflwyno o leiaf £4 biliwn o fuddsoddi ychwanegol erbyn 2036.

Fodd bynnag, nid dim ond twf economaidd sy'n bwysig, ond adeiladu cynaliadwyedd a gwydnwch i mewn i economi'r rhanbarth, creu a gwasgaru cyfoeth ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig, a hefyd arloesi, nid yn unig ym maes busnes a thechnoleg, ond hefyd mewn gwasanaethau cyhoeddus a'r gymdeithas ddinesig.

**Connected.**

A connector of people, their ambitions and the opportunities to fulfil their true potential. Nurturing the best conditions for business success and community cohesion, through targeted investment in world class digital communications. Creating cutting edge integrated transport infrastructure, connecting affordable and accessible spaces to live, work and play.

**Competitive.**

A catalyst for continuity investment, bringing key industry clusters to life. A trusted partner enabling companies to innovate and realise their full potential. A shaper of economically significant hubs, producing multiplier effects that fuel local and regional supply chains as well as the broader foundational economy.


**Resilient.**

A focus for creating the conditions where our businesses and our people are best equipped to embrace the future. A keystone presence helping the region adapt, improve and overcome periods of economic turbulence or social unrest.


*<u>Cefndir</u>*

Sefydlodd deg awdurdod partner Gydbwyllgor Bargen Ddinesig PC-R drwy lofnodi Cytundeb Cydweithio (CC) o ran cyflawni'r Fargen Ddinesig ar 1 Mawrth 2017. Mae hwn yn nodi trefniadau llywodraethiant, Fframwaith Sicrwydd yn ogystal â chynllun gweithredu. Mae un cynrychiolydd sy'n aelod etholedig o bob awdurdod partner yn gwasanaethu ar y Cydbwyllgor, y cyfeirir ato hefyd fel 'Cabinet Rhanbarthol' P-RC.

**Prosiectau Cymeradwy Cyfredol – Cronfa Fuddsoddi Ehangach**



Cynhyrchir cynllun busnes pum mlynedd treigl gyda chyllideb flynyddol. Darperir costau gweithredu yn ogystal â chyfrannau cyfraniadau i'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach gan bob awdurdod, yn seiliedig ar boblogaeth:




Mae'r Cydbwyllgor yn cael ei gefnogi gan Swyddfa'r Fargen Ddinesig dan arweiniad Cyfarwyddwr y Fargen Ddinesig, gyda Chyngor Caerdydd yn cael ei benodi'n Gorff Atebol (CA), sef yr endid cyfreithiol sy'n gyfrifol am gyflawni rhwymedigaethau o ran y Fargen Ddinesig.

*<u>Ariannu a Phrosiectau</u>*

Mae'r cytundeb ariannu gyda Llywodraethau Cymru a San Steffan yn dod i gyfanswm o £1.2 biliwn, y mae £734 miliwn ohono wedi'i ddyrannu i'r Metro ac yn cael ei reoli'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.  Cyfrifoldeb y Cydbwyllgor yw'r £495 miliwn sy'n weddill ac mae'n ymwneud â'r hyn a elwir yn 'Gronfa Fuddsoddi Ehangach'. Mae hyn yn cynnwys:

- £375 miliwn o grant ariannol dros 20 mlynedd, gyda £50 miliwn o grant refeniw wedi'i dalu ym mlynyddoedd 1-5, ac yna £325 miliwn o grant cyfalaf rhwng blynyddoedd 6-20;

- £120 miliwn o gyfraniadau Cyngor ar ffurf arian cyfalaf, yn cael ei dynnu i lawr yn ôl y gofyn.

Mae hyd at 3% o'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach wedi'i glustnodi i gefnogi gwaith Cyrff Rhanbarthol ac i dalu costau Datblygu a Chefnogi Rhaglenni. Cyfeirir at hyn fel 'Brigdoriad' y Gronfa Fuddsoddi Ehangach.

Bydd gweddill y Gronfa Fuddsoddi Ehangach (tua £480 miliwn) yn cael ei defnyddio i fuddsoddi ym mlaenoriaethau allweddol y rhanbarth gyda'r prif flaenoriaethau a'r themâu strategol, fel y nodir yng Nghynllun Busnes Strategol P-RC 2021-2026 fel a ganlyn:

- Ailgodi'n Gryfach - chwarae ein rhan yn y gwaith o adfer yr economi ac adeiladu gwydnwch
- Dod yn Ddinas-ranbarth – cryfhau prosesau llywodraethiant economaidd rhanbarthol;
- Tyfu a chyflawni rhaglen a phiblinell Cronfa Fuddsoddi Ehangach y Fargen Ddinesig;
- Cyflwyno'r achos dros Godi Gwastad P-RC;
- Datblygu'r cynllun ar gyfer clystyrau ar raddfa ddiwydiannol a thwf a arweinir gan arloesedd.




*Adolygiadau Gateway*

Bydd Trysorlys EM yn cynnal Adolygiad Gateway sy'n seiliedig ar ganlyniadau bob 5 mlynedd. Mae cyllid ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2021/22 i 2025/26 wedi'i gadarnhau ar ôl llwyddo i basio'r Adolygiad Gateway cyntaf, a oedd yn cwmpasu'r cyfno dhyd at 31 Mawrth 2021, ond mae'n bosibl y bydd angen ad-dalu unrhyw arian sydd heb ei wario os na lwyddir mewn unrhyw Adolygiad Gateway dilynol.

Pan fydd arian wedi'i ymrwymo a/neu lle mae bwriad clir i wario, mae'n bosibl y caniateir cario arian ymlaen at flynyddoedd i ddod. Hefyd caniateir cario ymlaen ar gyfer y flwyddyn derfynol (2025/26), cyhyd ag y llwyddir yn yr Adolygiad Gateway.

*Adolygiad Blynyddol, Cynlluniau a Datblygiadau at y Dyfodol*

Gellir dod o hyd i'r rhain yn y dogfennau canlynol:

**Sefyllfa Alldro Derfynol Cyllideb Refeniw Cydbwyllgor Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 2021/22** sy'n nodi perfformiad ariannol yn erbyn y gyllideb refeniw gymeradwy ar gyfer y flwyddyn ariannol. I grynhoi (yn amodol ar Archwiliad), ni wariwyd £254,548 o'r gyllideb a gymeradwywyd, sef £2,220,988 a alluogodd ostyngiad yn swm yr arian a gyllidebwyd i'w dynnu i lawr o arian 'Brigdoriad' y Gronfa Fuddsoddi Ehangach.

item-5-outturn.pdf (cardiffcapitalregion.wales)

**Cynllun Busnes Blynyddol Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 2021/22 – Adroddiad Perfformiad Chwarter 4** sy'n adrodd am wariant gwirioneddol yn erbyn cyllidebau'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach a gymeradwywyd fel y nodir yn y Cynllun Busnes Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn dangos (yn amodol ar Archwiliad) wariant net o £1,034,512 yn erbyn cyllideb Brigdoriad a gymeradwywyd o £1,450,000 a gwariant o £8,153,782 ar brosiectau a gymeradwywyd. Caiff dyraniadau blynyddol nas defnyddiwyd eu cario ymlaen i ariannu prosiectau yn y dyfodol.

item-7-quarter-4.pdf (cardiffcapitalregion.wales)

**Cronfa Fuddsoddi Ehangach Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd - Cynllun Busnes Blynyddol 2022/23** sydd, fel un o ofynion Cytundeb Cydweithio'r Fargen Ddinesig, yn amlinellu blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a thu hwnt, a'r adnoddau sydd i'w defnyddio i'w cyflawni. Mae hyn yn nodi cyfanswm y gwariant a ragwelir ar brosiectau yn ystod 2022/23 ac yn y tymor canolig gan nodi sut y disgwylir ariannu hyn.

item-4-abp.pdf (cardiffcapitalregion.wales)

**Sefydlu Cydbwyllgor Corfforaethol ac Ail-fframio'r Ymagwedd Tuag At Ddatblygu Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru** Mae'r adroddiadau hyn yn cynnig y cefndir, y cynnydd a'r datblygiadau yn y dyfodol a fydd yn caniatáu i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd bontio i fod yn rhan o Gyd-bwyllgor Corfforaethol newydd de-ddwyrain Cymru.

item-6-cjc-without-exempt-appendix-1.pdf (cardiffcapitalregion.wales)

item-4-cjc-without-exempt-appendix.pdf (cardiffcapitalregion.wales)

*Perfformiad Ariannol 2021/22*

Mae cost gweithredu'r Cydbwyllgor yn ogystal â sut y telir am y costau hynny i'w gweld yn y tabl isod.

**Tabl 1: Sefyllfa Alldro a Chyllideb Refeniw'r Cydbwyllgor yn 2021/22**

| Cyllideb Refeniw'r Cydbwyllgor | 2021/22 Cyllideb £ | 2021/22 Alldro £ | 2021/22 Amrywiant £ |
|---|---|---|---|
| **Gwariant:** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Swyddfa'r Fargen Ddinesig<br>Gwasanaethau Cymorth i Gyrff Atebol | 1,899,346<br>321,642 | 1,647,405<br>319,035 | (251,941)<br>(2,607) |
| **Cyfanswm** | **2,220,988** | **1,966,440** | **(254,548)** |
| **Ariannwyd gan:**<br>Cyfraniad 'Brigdoriad' y Gronfa Fuddsoddi Ehangach - Cronfa Wrth Gefn<br>Cyfraniadau Partner | (1,060,930)<br>(1,160,058) | (806,382)<br>(1,160,058) | 254,548<br>0 |
| **Cyfanswm** | **(2,220,988)** | **(1,966,440)** | **254,548** |
| | | | |
| **Sefyllfa Net** | **0** | **0** | **0** |

Defnyddiwyd tanwariant cyllideb y Cydbwyllgor ar gyfer 2021/22 trwy leihau'r arian y nodwyd yr oedd angen ei gael o 'Brigdoriad' y Gronfa Fuddsoddi Ehangach. Nodir y rhesymau dros y tanwariant yn yr adroddiad ar y Sefyllfa Alldro Derfynol y mae dolen iddi uchod.

### Tabl 2: Cyllideb a Sefyllfa Alldro 'Brigdoriad' y Gronfa Fuddsoddi Ehangach yn 2021/22

| Brigdoriad y Gronfa Fuddsoddi Ehangach | 2021/22 Cyllideb £ | 2021/22 Alldro £ | 2021/22 Amrywiant £ |
|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros:**<br>Cyrff Rhanbarthol<br>Datblygu a Chefnogi Rhaglenni<br>Cyfraniad at Gyllideb Swyddfa'r Fargen Ddinesig | 70,000<br>319,070<br>1,060,930 | 37,416<br>190,714<br>806,382 | (32,584)<br>(128,356)<br>(254,548) |
| | 1,450,000 | 1,034,512 | (415,488) |
| Incwm Buddsoddi | 0 | 0 | 0 |
| **Gwariant Net** | **1,450,000** | **1,034,512** | **(415,488)** |
| **Ariannwyd gan:**<br>Grant Refeniw Trysorlys Ei Mawrhydi | (1,450,000) | (1,034,512) | 415,488 |
| **Cyfanswm** | **(1,450,000)** | **(1,034,512)** | **415,488** |

Mae 'Brigdoriad' y Gronfa Fuddsoddi Ehangach yn ddyraniad o 3% o gyfanswm y Gronfa Fuddsoddi Ehangach (£495m) y cyllidebwyd i'w defnyddio yn ystod oes 20 mlynedd y Fargen Ddinesig. Nodir ei ddefnydd uchod gyda thanwariant yn cael ei gario ymlaen i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Ceir mwy o fanylion am wariant yn 2021/22 a'r gwariant a ragwelir yn 2022/23 yn yr adroddiadau eraill y mae dolenni iddynt uchod.

### Tabl 3: Cyllideb ac Alldro 'Cydbwysedd Cyllid' y Gronfa Fuddsoddi Ehangach yn 2021/22

| 'Cydbwysedd Cyllid' y Gronfa Fuddsoddi Ehangach | 2021/22 Cyllideb £ | 2021/22 Alldro £ | 2021/22 Amrywiant £ |
|---|---|---|---|
| **Gwariant Cyfalaf:** | | | |
| Adnoddau Prosiect yn Ystod y Flwyddyn | 48,428,000 | 5,330,706 | (43,097,294) |
| **Is-gyfanswm** | 48,428,000 | 5,330,706 | (43,097,294) |
| **Gwariant Refeniw:** | | | |
| Adnoddau Prosiect yn Ystod y Flwyddyn | 3,369,000 | 2,823,076 | (545,924) |
| **Is-gyfanswm** | 3,369,000 | 2,823,076 | (545,924) |
| **Cyfanswm** | **51,797,000** | **8,153,782** | **(43,643,218)** |
| **Ariennir gan** | | | |
| Grant Refeniw Trysorlys Ei Mawrhydi | (3,369,000) | (2,412,230) | 956,770 |
| Grant Cyfalaf HMT | (22,000,000) | (3,630,000) | 18,370,000 |
| Grant ULEV | 0 | (2,111,552) | (2,111,552) |
| 'Cost Cario' Benthyca Dros Dro | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniadau'r Cyngor | (26,428,000) | 0 | 26,428,000 |
| **Cyfanswm** | **(51,797,000)** | **(8,153,782)** | **43,643,218** |

Mae tabl 3 yn nodi'r defnydd a ragwelir o'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach ar gyfer prosiectau posibl yn y dyfodol ac a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn, fel y nodir yn y Cynllun Busnes Blynyddol ar gyfer 2021/22. Roedd gwariant prosiectau Cyfalaf a Refeniw yn sylweddol is na'r disgwyl wrth bennu'r rhagolwg ar gyfer 2021/22. Mae amrywiannau o ganlyniad i amseru gwariant yn erbyn Cymeradwyaethau'r Cyd-bwyllgor gyda'r holl adnoddau a ddyrannwyd yn cael eu cario ymlaen i'w defnyddio mewn blynyddoedd i ddod, neu o brosiectau y disgwylid iddynt ddwyn ffrwyth wrth osod y Cynllun Busnes a gafodd eu terfynu'n gynnar wedyn. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn y Cynllun Busnes Blynyddol – Adroddiad Perfformiad Chwarter 4, y cyfeirir ato uchod.

Roedd gwariant allweddol yn 2021/22 ar y prosiectau cymeradwy canlynol:

- £2.67m Benthyciad cyfalaf i ZipWorld
- £2.11m Gwariant Cyfalaf a Refeniw ar gynllun peilot Tacsi Cerbydau Allyriadau Isel Iawn, a ariennir gan Grant Llywodraeth Cymru
- £0.81m Gwariant cyfalaf ar bryniant safle Aberddawan
- £0.57m Gwariant refeniw ar Gronfa Bwlch Hyfywedd Tai
- £0.57m Gwariant refeniw ar y Gronfa Her
- Cyfraniad o £0.40m i her hyfforddiant Traceostomi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr drwy Gronfa Her P-RC, a ariennir yn rhannol gan Grant y Cyngor Ymchwil Busnesau Bach a'i drin fel Gwariant Refeniw a Ariennir gan Gyfalaf o dan Statud (GRAGDS/REFCUS)

- £0.18m Cyfraniad refeniw at ddarpariaeth cymhwyster gradd Feistr Seiber Prifysgol Caerdydd

Prin fu'r effaith ar gyfrifon 2020/21, oherwydd Pandemig COVID-19. O ran y blynyddoedd i ddod, ni theimlir ychwaith y bydd effaith sylweddol ar wariant a amcanestynnir a'r cyllidebau a gymeradwywyd.

### Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022

Crynhoir sefyllfa Mantolen y Cydbwyllgor isod ac mae'n rhoi manylion ei asedau a'i atebolrwydd ar 31 Mawrth 2022.

| Crynodeb o'r Fantolen | 31 Mawrth 2021 £ | 31 Mawrth 2022 £ |
|---|---|---|
| | | |
| **Asedau Hirdymor:**<br>Eiddo, Cyfarpar ac Offer, Buddsoddiadau Hirdymor, Dyledwyr Hirdymor | 41,890,169 | 42,127,434 |
| | | |
| **Asedau a Rhwymedigaethau Presennol:**<br>**Dyledwyr Byrdymor, Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod, llai Credydwyr Byrdymor** | 41,169,189 | 26,034,553 |
| | | |
| **Rhwymedigaethau Hirdymor** | (41,836,518) | (22,578,935) |
| | | |
| **Asedau Net** | **41,222,840** | **45,583,052** |
| Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy<br>Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy | 253,952<br>40,968,888 | 2,027,421<br>43,555,631 |
| **Ariennir gan** | **41,222,840** | **45,583,052** |

*Rhwymedigaethau Pensiwn*

Nid yw'r Cydbwyllgor yn endid cyfreithiol yn ei rinwedd ei hun ac felly ni all fynd i mewn i gontractau ar gyfer nwyddau neu wasanaethau. Caiff swyddogion sy'n cefnogi gweithgarwch y Cydbwyllgor eu cyflogi trwy gontract trwy un o'r awdurdodau partner neu sefydliadau eraill y sector cyhoeddus. Mae'r corff sy'n cyflogi yn gyfrifol am bob rhwymedigaeth pensiwn bresennol ac yn y dyfodol a allai godi o'r trefniadau hyn. Mae'r Cydbwyllgor yn ad-dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chyflogau, gan gynnwys cyfraniadau pensiwn sy'n gysylltiedig â chyflogwyr ac mae'n cyfrif am y rhain yn ei Gyfrif Incwm a Gwariant. Felly, ni chydnabyddir unrhyw atebolrwydd am daliadau pensiwn neu fudd-daliadau yn y dyfodol ym Mantolen y Cydbwyllgor.

*Balansau a Chronfeydd Wrth Gefn*

Ar 31 Mawrth 2022, roedd gan y Cydbwyllgor Gronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy o £2,027,421. Carir y rhain ymlaen fel Cronfa Gyffredinol o £212,080 i ychwanegu at yr adnoddau Cyllideb Refeniw Cydbwyllgor sydd ar gael yn ystod y blynyddoedd i ddod, a Chronfa Wrth Gefn Glustnodedig o £208,120 ynghlwm â llog wedi'i gronni ar fuddsoddiadau y bwriedir ei ddefnyddio i ariannu gwariant prosiect yn y dyfodol, £227,221 ynghlwm â threuliau Pontio CBC i'w hysgwyddo yn 2022/23, £30,000

ynghlwm â chostau Adolygiad Gateway yn y dyfodol a £1,350,000 o gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn y gellid ei ddefnyddio o gyllid wedi'i ailgylchu (CSC Foundry Ltd) i'w ddefnyddio i ariannu gwariant prosiect yn y dyfodol.

*Datganiad Llywodraethiant Blynyddol*

Rhestrir trefniadau llywodraethiant y Cydbwyllgor yn y Cytundeb Cydweithio ac maent yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sydd ar waith i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir fel y'u hadolygwyd trwy gymhwyso Fframwaith Llywodraethiant Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) / SOLACE.

Mae gan y Cydbwyllgor drefniadau ar waith trwy Swyddfa'r Fargen Ddinesig a'r Corff Atebol, sydd â'r bwriad o sicrhau llywodraethiant cryf a system reoli fewnol effeithiol.

Cynhelir yr asesiad llywodraethiant blynyddol yn dilyn adolygiad o nifer o ddatganiadau arfer gorau a chamau gweithredu dilynol lle tybir bod eu hangen. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys newidiadau i drefniadau llywodraethiant yn 2020/21 o ganlyniad i bandemig Covid-19 ac a barhaodd yn 2021/22, roedd y newidiadau hyn yn cynnwys parhau ag:

- Addasiadau i adlewyrchu ffyrdd newydd o weithio, ymgysylltu â rhanddeiliaid a threfniadau argyfwng
- Newidiadau i flaenoriaethau a chynlluniau strategol o ganlyniad i effaith y pandemig ar randdeiliaid a'r rhanbarth.

Bydd y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn nodi sut mae Covid-19 wedi effeithio ar lywodraethiant a systemau rheolaeth fewnol gan ddefnyddio dull cymesur ar sail risg, yn enwedig lle gallai rhai o'r ffynonellau sicrwydd arferol fod yn fwy cyfyngedig nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Roedd blwyddyn ariannol 2021/22 yn gofyn am weithredu'r Cod Rheoli Ariannol CIPFA (RhA) yn llawn. Un o nodau allweddol y Cod RhA yw gwella gwydnwch ariannol sefydliadau drwy ymgorffori safonau rheoli ariannol gwell. Fel y cyfryw, mae adolygiad 2021/22 yn adeiladu ar yr asesiad cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod 2020/21 (y flwyddyn gysgodi) gan amlinellu i ba raddau y mae trefniadau rheoli ariannol y Cydbwyllgor yn cydymffurfio â'r Cod RhA.

Mae Datganiad Llywodraethiant Blynyddol y Cydbwyllgor a gyhoeddwyd ar wahân yn crynhoi'r broses asesu trefniadau llywodraethiant sydd ar waith ar gyfer y Cydbwyllgor a gellir ei weld ar wefan Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

## Y Datganiadau Ariannol

Nodir y Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn y ddogfen hon, ynghyd â Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a'r Adroddiad Archwilio.

Datganiadau craidd y Cydbwyllgor yw:

- Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sy'n rhoi gwybodaeth am sut mae wedi perfformio drwy gydol y flwyddyn ac o ganlyniad, a yw ei weithredoedd wedi arwain at warged neu ddiffyg.
- Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn sy'n dangos y newidiadau i'n cronfeydd wrth gefn dros y flwyddyn. Caiff cronfeydd wrth gefn eu rhannu'n rhai 'defnyddiadwy', y mae modd eu buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf neu wella gwasanaethau, a'r rhai 'annefnyddiadwy', y mae'n rhaid eu neilltuo at ddibenion penodol.
- Mantolen sy'n rhoi cipolwg ar asedau, rhwymedigaethau, balansau arian parod a chronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn.
- Dengys y Datganiad Llif Arian Parod y rhesymau dros newidiadau ym malansau arian parod yn ystod y flwyddyn ac a yw'r newidiadau oherwydd gweithrediadau, buddsoddi newydd neu weithgareddau ariannu.

Mae Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd yn dod gyda'r prif ddatganiadau ariannol ac maent yn cynnig haen ychwanegol o wybodaeth a chyd-destun.

Mae Cyfrifon Grŵp yn cyfuno datganiadau ariannol y Cydbwyllgor ei hun â'i fuddiannau perthnasol mewn is-gwmnïau, cymdeithion a/neu fentrau ar y cyd; yn yr achos hwn, CSC Foundry Limited.

## Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiadau Ariannol

**Cyfrifoldebau Cydbwyllgor Bargen Ddinesig P-RC**

Mae gofyn i'r Cydbwyllgor:

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn gywir i sicrhau bod swyddog priodol yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Y swyddog hwn yw Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Swyddog Adran 151 Cyngor Caerdydd sydd â rôl Swyddog Adran 151 Bargen Ddinesig P-RC;
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

**Y Cynghorydd Anthony Hunt** **Dyddiad:** **2023**

**Cadeirydd Cydbwyllgor P-RC**

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Adran 151

Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol y Cydbwyllgor yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22 (y Cod) CIPFA.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r Swyddog Adran 151 wedi:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson, heblaw os yw newidiadau polisi wedi'u nodi yn y cyfrifon hyn;
- gwneud beirniadaethau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddarbodus; a
- a chydymffurfio â'r Cod.

Hefyd mae'r Swyddog Adran 151 wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir wedi eu diweddaru; a
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

## Tystysgrif y Swyddog Adran 151

Mae datganiadau ariannol Cydbwyllgor Bargen Ddinesig P-RC yn rhoi golwg gwir a theg o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 a'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2022.

**Christopher Lee** **Dyddiad** **2023**

**Y Swyddog Adran 151**

## Adroddiad ar Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd; a
- Grwp Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllido, y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, a’r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Grŵp Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllido Grŵp, y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn Grŵp, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Grŵp, Mantolen y Grŵp, y Datganiad Llif Arian Parod Grŵp, a’r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae’r fframwaith adrodd ariannol a gafodd ei gymhwyso wrth eu paratoi yn gyfraith gymwys ac yn safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y’u dehonglir a’u addasir gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

Yn fy marn i, mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Grŵp Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022 ac o’i incwm a’i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- eu bod wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs [DU]) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'.  Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu hegluro ymhellach yn adran cyfrifoldebau’r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol ar Gydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a’r grŵp yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i fy ngwaith o archwilio’r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi

cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio sydd wedi dod i law yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

### Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o gyfrifo ar sail busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodwyd y datganiadau ariannol i gael eu cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â phryderon parhaol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

### Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol ac yn fy adroddiad. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicr arni.

Fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson gyda'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yng nghwrs yr archwiliad, neu'n ymddangos mewn ffordd arall ei bod wedi ei cham-ddatgan.  Os byddaf yn adnabod anghysonderau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae gofyn i mi benderfynu a ydy hyn wedi arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain.  Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi ei wneud, bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae gofyn i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

### Adroddiad ar ofynion eraill

#### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac fe baratowyd yr adroddiad naratif yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22;
- Mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a pharatowyd y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn unol â'r arweiniad.

**Materion rwy'n adrodd arnynt fel eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r grwp a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi adnabod camddatganiadau sylweddol yn yr adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

Nid oes dim gennyf i'w adrodd o ran y materion canlynol, rwyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu nad oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifo a'r ffurflenni; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

**Cyfrifoldebau**

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol sy'n gyfrifol am y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurwyd yn llawn yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi datganiad cyfrifon gan gynnwys datganiadau ariannol Grwp Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sy'n rhoi golwg deg a chywir, ac am reolaeth fewnol i'r graddau y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn pennu'n angenrheidiol i alluogi'r gwaith o baratoi datganiadau cyfrifon sy'n rhydd rhag unrhyw gamddatganiadau sylweddol, ni waeth yn sgil twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Grŵp i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu fel sy'n briodol, unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes hyfyw oni bai y credir ei bod yn amhriodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nod yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed trwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddigwydd oherwydd twyll neu wall a chânt eu hystyried yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau materol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o ran:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a'r
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll wrth gofnodi refeniw neu mewn cofnodion ariannol anarferol.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r grŵp yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r grŵp yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gâi effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gâi effaith sylfaenol ar weithrediadau Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau a phrofion y datganiad ariannol i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant, a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau posibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Cabinet Rhanbarthol;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol;

Fe wnes i hefyd gyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio gan barhau yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, wedi ei effeithio gan anhawster canfod unrhyw afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r grŵp, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a ddefnyddir.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Ardystiaf fy mod i wedi cwblhau'r archwiliad ar gyfrifon Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r grŵp yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Mawrth 2023

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

## Polisïau Cyfrifyddu a ddefnyddir wrth ffurfio'r cyfrifon

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi incwm a gwariant y Cydbwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 a'i sefyllfa ariannol ar y dyddiad hwnnw. Caiff y cyfrifon eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifeg priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22 CIPFA (y Cod).

Cafodd y cyfrifon eu paratoi ar sail busnes hyfyw. Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiedir yn bennaf yw cost hanesyddol, wedi'i haddasu gan ailbrisiad rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

### 1. Safonau Cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond sydd heb eu mabwysiadu eto

Y prif newid i'r Cod fydd gofynion Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) 16 – Prydlesi a fabwysiadwyd yng Nghod 2022/23. Y dyddiad gwneud cais gofynnol a'r dyddiad y bydd y Cyngor yn mabwysiadu SAARh 16 yw 1 Ebrill 2024. Mae SAARh 16 yn cyflwyno model cyfrifyddu un prydleswr ac yn gofyn i brydleswr gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer y rhan fwyaf o brydlesi sydd â thymor o fwy na 12 mis, oni bai bod yr ased sylfaenol o werth isel. Mae angen i brydleswr gydnabod ased hawl-i-ddefnyddio sy'n cynrychioli ei hawl i ddefnyddio'r ased prydles sylfaenol ac atebolrwydd prydles sy'n cynrychioli ei rwymedigaeth i wneud taliadau prydles. Nid oes disgwyl i hyn gael unrhyw effaith ar Gyfrifon y Cyd-bwyllgor.

### 2. Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir gweithgarwch yn y flwyddyn y digwydd, nid pan gaiff y taliadau arian parod eu gwneud neu eu derbyn. Yn benodol:

- Cydnabyddir refeniw o gontractau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed ar gyfer gwasanaethau neu ddarparu nwyddau, pan fydd neu wrth i'r nwyddau neu'r gwasanaethau gael eu trosglwyddo i'r derbynnydd gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad yn y contract.
- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio.
- Cofnodir gwasanaethau a gafwyd fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir y taliadau.
- Cyfrifir am y llog a ddaw i law ar fuddsoddiadau ac sy'n daladwy ar fenthyciadau yn y drefn honno fel incwm a gwariant ar sail y gyfradd log berthnasol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llifoedd arian parod yn unol neu a bennir gan y contract.
- Pan gydnabyddir refeniw a gwariant ond na chafwyd neu na thalwyd unrhyw arian parod, cofnodir dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol yn y Fantolen. Pan nad ystyrir bod modd casglu dyledion, caiff y balans ei leihau trwy wneud darpariaeth ar gyfer dyled amheus.

### 3. Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod

Nid yw'r Cydbwyllgor yn gweithredu ei Gyfrif Banc ei hun, yn lle hynny, gweinyddir pob trafodyn arian parod gan Gyngor Caerdydd yn ei rôl fel Corff Atebol. Mae strategaeth Rheoli Trysorlys gymeradwy ar waith i reoli balansau arian parod y Cydbwyllgor i sicrhau y caiff ei faterion ariannol eu rheoli'n ddarbodus.

Mae trefniadau trysorlys yn cynnwys buddsoddiadau byrdymor drwy gymheiriaid cymeradwy ar sail diogelwch, hylifedd ac yna arenillion.

**4. Asedau a rhwymedigaethau wrth gefn**

Mae'r rhain yn fuddion neu rwymedigaethau posibl sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac y caiff eu bodolaeth ei chadarnhau gan un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt dan reolaeth lwyr y Cydbwyllgor. Ni chydnabyddir asedau na rhwymedigaethau wrth gefn yn y datganiadau cyfrifyddu ond fe'u datgelir mewn nodyn i'r cyfrifon pan fo angen.

**5. Gwarediadau a Derbyniadau Cyfalaf**

Pan gaiff asedau eu gwaredu neu eu dad-gydnabod, defnyddir gwerth yr asedau hynny sydd yn y Fantolen ynghyd ag unrhyw elw o waredu i gyfrifo budd neu golled adeg gwaredu.

**6. Asedau Ariannol**

Dosberthir asedau ariannol yn seiliedig ar ddull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal asedau ariannol a'u nodweddion llif arian parod.

Mesurir y prif ddosbarthiadau o asedau ariannol a ddelir ar:

- gost wedi'i amorteiddio – Cyflawni amcanion drwy gasglu llifoedd arian cytundebol e.e. prifswm a llog
- gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr arall (GTICA) – Cyflawni amcanion trwy unrhyw ddull arall yn hytrach na chasglu llifoedd arian parod cytundebol a phan fo'r Cydbwyllgor wedi dynodi mai dyma'r achos.

O ran gwerth asedau ariannol a gydnabyddir yn y cyfrifon, y prif fodel busnes yw dal buddsoddiadau i gasglu llifoedd arian parod cytundebol; fodd bynnag, gellir darparu benthyciadau ac offerynnau ecwiti fel refeniw neu wariant cyfalaf i gyflawni amcanion gwasanaeth. Gan ddibynnu ar y rhesymeg ar gyfer cadw asedau ariannol o'r fath, gall y Cydbwyllgor ddynodi eitemau o'r fath i gael eu mesur ar werth teg trwy incwm cynhwysfawr arall.

Caiff technegau mesur gwerth teg eu diffinio yn adran derfynol y polisi hwn.

**Asedau Ariannol a Fesurir ar Gost wedi'i Hamorteiddio**

Cydnabyddir asedau ariannol a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio ar y Fantolen pan ddaw'r Cydbwyllgor yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol a chânt eu mesur yn ôl gwerth teg yn y lle cyntaf. Yna cânt eu mesur yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r Datganiad Incwm a Gwariant

Cynhwysfawr (DIGC) ar gyfer llog sy’n dod i law’n seiliedig ar swm cario’r ased, wedi’i luosi gan y gyfradd log gyfredol ar gyfer yr offeryn yn unol ag unrhyw fuddsoddiad neu gytundeb benthyciad. Y swm a gyflwynir yn y Fantolen yw’r prifswm sy’n weddill a ddaw i law (yn ogystal â llog a gronnwyd). Caiff unrhyw enillion neu golledion sy’n codi wrth ddad-gydnabod ased eu credydu/debydu i’r DIGC. Cyfrifir colledion Amhariad y Model Colledion Credyd Disgwyliedig i adlewyrchu'r disgwyliad na fydd llifoedd arian parod yn y dyfodol yn digwydd oherwydd gallai'r benthyciwr ddiffygdalu ar ei rwymedigaethau. Gallai adolygiad o’r fath ddigwydd ar ased ariannol unigol neu ar sail gyfunol, yn seiliedig ar berthnasedd a chost a budd asesiad unigol. Mae’r Cydbwyllgor yn cynnal adolygiad o golledion credyd disgwyliedig ar yr holl asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i hamorteiddio ar sail 12 mis neu gydol oes. Pan na chynhaliwyd darpariaeth ar gyfer colledion o'r fath eisoes e.e. fel rhan o ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg, gwneir addasiadau i werth asedau ariannol a gaiff eu datgelu yn y cyfrifon. Mae risg credyd yn chwarae rhan allweddol o ran asesu colled credyd ddisgwyliedig. Pan fo risg wedi cynyddu'n sylweddol ers i ased ariannol gael ei gydnabod yn y lle cyntaf, caiff darpariaeth ar gyfer colledion ei hasesu ar sail gydol oes. Pan nad yw risg wedi cynyddu’n sylweddol neu mae’n parhau’n isel, caiff darpariaeth ar gyfer colledion ei hasesu ar sail colled ddisgwyliedig 12 mis.

**Asedau Ariannol a Fesurir ar Werth Teg trwy Incwm Cynhwysfawr Arall (GTICA)**

Caiff asedau ariannol a fesurir fel GTICA eu mesur i ddechrau a'u cario ymlaen ar werth teg ar y Fantolen. Bydd ymdrin ag asedau o’r fath dan y categori hwn yn gofyn am ‘Ddynodiad’ gan y Cydbwyllgor. Mae’r rhain yn debygol o fod yn ddaliadau ecwiti a ddelir fel rhan o amcan gwasanaeth. Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg mewn Incwm Cynhwysfawr Arall ac mae'r newid o ran swm y buddsoddiad yn y fantolen yn cael ei baru â chofnod yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio Offerynnau Ariannol. Wrth ddad-gydnabod, caiff unrhyw falans ar y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio Offerynnau Ariannol ei ailgylchu trwy'r Gwarged neu’r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau.

**Mesur Asedau Ariannol ar Werth Teg**

Mae’r mesuriadau gwerth teg ar gyfer y dosbarthiadau asedau ariannol uchod a fesurir ar werth teg yn seiliedig ar y technegau canlynol:

- offerynnau â phrisiau marchnad a ddyfynnir - pris y farchnad
- offerynnau eraill â thaliadau sefydlog ac y gellir eu pennu – dadansoddiad llif arian parod â gostyngiad

Caiff y mewnbynnau i’r technegau mesur eu categoreiddio yn unol â’r lefelau canlynol:

- Lefel 1 – prisiau a ddyfynnir (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau unfath y gall yr awdurdod fanteisio arnynt ar y dyddiad mesur.

- Lefel 2 – mewnbynnau ac eithrio prisiau a ddyfynnir wedi'u cynnwys yn Lefel 1 y gellir eu harsylwi ar gyfer yr ased, un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Lefel 3 – mewnbynnau na ellir eu harsylwi ar gyfer yr ased.

## 7. Grantiau a Chyfraniadau

Cyfrifir am grantiau a chyfraniadau eraill ar sail gronnol ac fe'u cydnabyddir pan fo:

- sicrwydd digonol y bydd y Cydbwyllgor yn cydymffurfio â'r amodau dros eu derbyn a
- bod sicrwydd digonol y daw'r grant neu'r cyfraniad i law.

**Refeniw**

Nodir grantiau, nad yw'r amodau ar eu cyfer wedi eu bodloni eto, yn y Fantolen fel Credydwyr Hirdymor a Byrdymor. Pan fodlonir yr amodau, credydir y grant neu'r cyfraniad i'r Llinell Incwm Grant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Pan nad oes sicrwydd digonol y caiff yr amodau eu bodloni, ni chydnabyddir unrhyw arian a ddaw i law fel derbyn arian grant ond fel ad-daliad sy'n ddyledus i'r corff dyfarnu a chaiff ei gadw ar y Fantolen fel rhwymedigaeth os bydd yn parhau heb ei dalu.

Pan gydymffurfir ag amodau grant refeniw neu gyfraniad ond nas defnyddiwyd hwy eto i ariannu gwariant at y diben a nodwyd yn y cytundeb grant, fe'u neilltuir yn y Gronfa Wrth Gefn Glustnodedig.

**Cyfalaf**

Trinnir grantiau a chyfraniadau yn ystod y flwyddyn i ariannu cynlluniau cyfalaf sy'n Wariant Refeniw a Ariennir gan Gyfalaf dan Statud (GRAGDS) fel incwm refeniw ac fe'u credydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r llinell wasanaeth berthnasol.

Credydir Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau perthnasol wrth dalu am waith cyfalaf arall i'r llinell Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Pan fo grant cyfalaf neu gyfraniad penodol wedi dod i law ond nad yw wedi ei ddefnyddio eto, ystyrir bod hyn yn cynrychioli amod ac fe'i nodir fel credydwr, oherwydd bod modd dychwelyd yr elfen nas defnyddiwyd i'r ariannwr. Pe bai grant amhenodol yn parhau heb ei ddefnyddio, byddai'n cael ei ddal fel Cronfa Wrth Gefn Grantiau Heb Eu Defnyddio.

Nodir grantiau cyfalaf a chyfraniadau ar wahân ar y Fantolen.

## 8. Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill

Mae gan y Cydbwyllgor fuddion mewn cwmnïau ac endidau eraill. Yn amodol ar lefel y perthnasedd a'r amlygrwydd i risg, mae'r rhain wedi'u cysoni i greu Cyfrifon Grŵp.

## 9. Eiddo, Peiriannau, Offer

Yr asedau hyn yw'r rhai â sylwedd ffisegol a ddefnyddir wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, y bwriedir eu cadw am gyfnod amhenodol a'r rhai ar gyfer hyrwyddo diwylliant neu wybodaeth ac y disgwylir eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol.

### Cydnabyddiaeth

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella asedau o'r fath ei gyfalafu ar sail gronnol. Rhagdybir bod gwariant ar asedau presennol yn arwain at wella'r ased ac fe'i dangosir yn y cyfrifon fel ychwanegiad at yr ased.

Codir gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflawni buddion neu botensial gwasanaeth (h.y. atgyweirio a chynnal) ar refeniw pan gaiff ei wario.

### Mesur

Mesurir asedau i ddechrau ar gost, gan gynnwys yr holl wariant sy'n deillio'n uniongyrchol o ddod â'r ased dan sylw i gyflwr gweithio ar gyfer y defnydd a fwriedir, ac eithrio costau benthyca na chaiff eu cyfalafu. Codir dibrisiant blwyddyn lawn ar wariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Ni chodir unrhyw gostau dibrisiant yn ystod y flwyddyn waredu. Felly caiff asedau eu cario ymlaen ar y fantolen fel a ganlyn:

| Math yr Ased | Mesur | Amlder Prisio | Prisiad Diwethaf | Syrfëwr ar gyfer y Prisiad Diwethaf | Prisiad Nesaf | Dibrisiant |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer | Cost Hanesyddol Ddibrisiedig | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b | 5-15 mlynedd |
| Asedau sy'n cael eu Hadeiladu | Cost Hanesyddol Ddibrisiedig | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b |

### Gwaredu

Pan gaiff asedau eu gwaredu neu eu digomisiynu, defnyddir gwerth yr asedau hynny sydd yn y Fantolen ynghyd ag unrhyw elw o waredu i gyfrifo budd neu golled wrth waredu. Caiff gwarediadau eu trin fel derbyniadau cyfalaf a chânt eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf.

## 10. Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r eiddo a ddelir i ennill rhent a/neu arbrisiant cyfalaf megis prydlesi tir, tir a ddelir ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol fel safleoedd strategol a thir ac adeiladau eraill sy'n bodloni meini prawf eiddo buddsoddi.

Mesurir eiddo buddsoddi ar werth teg, yn seiliedig ar bris y farchnad a fyddai'n cael ei dderbyn wrth werthu ased mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranogwyr yn y farchnad a'r dyddiad mesur, gan adlewyrchu defnydd uchaf a gorau'r ased. Cynhelir prisiad llawn o bryd i'w gilydd. Bu'r prisiad diweddaraf wrth baratoi cyfrifon 2021/22.

Nid yw eiddo buddsoddi yn cael eu dibrisio. Caiff enillion a cholledion ailbrisio a gwaredu eu gosod yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Prisiwyd yr Eiddo Buddsoddi a gynhwysir yng Nghyfrifon Grŵp y Cydbwyllgor gan briswyr allanol a gyflogwyd gan Gyngor Sir Fynwy yn rhan o'i rôl fel yr Awdurdod lletyol ar gyfer prosiect CSC Foundry Ltd.

## 11. Darpariaethau

Caiff darpariaethau eu codi fel gwariant i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Cydbwyllgor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, wedi'i fesur wrth yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad mantolen y gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth, gan ystyried risgiau ac ansicrwydd perthnasol. Pan wneir taliadau, fe'u codir i'r ddarpariaeth, a ddelir ar y Fantolen. Caiff darpariaethau eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a chaiff darpariaethau nad oes eu hangen mwyach eu credydu'n ôl i'r llinell wasanaeth berthnasol.

## 12. Cronfeydd Wrth Gefn

Ceidw'r Cydbwyllgor symiau fel cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy at ddibenion polisi yn y dyfodol neu i dalu am daliadau argyfwng. Cynhelir cronfeydd wrth gefn penodol i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, a buddion ymddeol a chyflogaeth. Nid ydynt yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy ar gyfer y Cydbwyllgor

## 13. Gwariant Refeniw a Ariennir gan Gyfalaf dan Statud (GRAGDS)

Gallai gwariant a wneir yn ystod y flwyddyn gael ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol, ond nid yw hynny'n arwain at greu ased anghyfredol, a chodwyd hynny fel gwariant i'r llinell wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Pan fo'r Cydbwyllgor wedi penderfynu talu cost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu drwy fenthyca, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn diystyru'r symiau a godir fel nad oes effaith ar lefel y Dreth Gyngor.

## 14. Treth Ar Werth (TAW)

Mae TAW daladwy wedi'i heithrio o wariant ac eithrio pan na ellir ei hadennill gan CThEF. Eithrir TAW dderbyniadwy rhag incwm.

## Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2021/22

Mae'r datganiad hwn yn cofnodi holl incwm a gwariant y Cydbwyllgor drwy gydol y flwyddyn ac o ganlyniad mae'n dangos cost cyfrifyddu darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol.

| 2020/2021 £ | | Nodiadau | 2021/2022 £ |
|---|---|---|---|
| | **Cost Gwasanaethau** | | |
| 1,160,647 | Costau staff | | 1,751,398 |
| 15,434 | Safle | 2 | 15,965 |
| 3,663 | Trafnidiaeth | 3 | 889 |
| 2,188,028 | Cyflenwadau a Gwasanaethau | 4 | 3,065,098 |
| 1,086,000 | Gwariant Refeniw a Ariennir Gan Gyfalaf Dan Statud | 5 | 400,000 |
| 188,927 | Gwasanaethau Cymorth | 6 | 347,364 |
| 0 | Costau Cyfalaf | 12 | 412,773 |
| **4,642,699** | **Gwariant Gweithredu** | | **5,993,487** |
| (2,190,817) | Cyfraniadau gan Awdurdodau Lleol | 7,10 | (1,160,058) |
| (2,183,693) | Incwm o Grantiau | 7 | (4,562,130) |
| (129,661) | Ffioedd a Chostau | 7 | (94,556) |
| **(4,504,171)** | **Incwm Gweithredu** | | **(5,816,744)** |
| **138,528** | **Cost Net Gwasanaethau** | | **176,743** |
| (155,991) | Llog ac Incwm Buddsoddi | 15 | (166,248) |
| **(155,991)** | **Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** | | **(166,248)** |
| (4,474,938) | Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf Cydnabyddedig | 21 | (4,370,706) |
| **(4,474,938)** | **Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol** | | **(4,370,706)** |
| | | | |
| **(4,492,401)** | **(Gwarged) / Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau** | | **(4,360,211)** |
| 0 | Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | 0 |
| **(4,492,401)** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **(4,360,211)** |

## Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn 2021/22

Rhennir y datganiad hwn yn Gronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy ac Annefnyddiadwy. Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy yw rhai y gall y Cydbwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Ni ellir defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy, megis y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf gan mai at ddibenion cyfrifyddu'n unig y maen nhw.

| **Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn** | **Balans y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol £** | **Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig y Gronfa Gyffredinol £** | **Cronfa Derbynebau Cyfalaf Defnyddiadwy £** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £** | **Cyfrif Addasiadau Cyfalaf £** | **Cyfrif Absenoldebau Cronedig £** | **Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn £** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2021 a Gariwyd Ymlaen** | **212,080** | **41,872** | **0** | **253,952** | **40,993,297** | **(24,409)** | **40,968,888** | **41,222,840** |
| **Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn 21/22** | | | | | | | | |
| Gwarged / (Diffyg) ar y Cyfrif Incwm a Gwariant | 4,360,211 | 0 | 0 | **4,360,211** | 0 | 0 | **0** | **4,360,211** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **4,360,211** | **0** | **0** | **4,360,211** | **0** | **0** | | **4,360,211** |
| Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu | (3,936,742) | | 0 | (3,936,742) | 3,957,932 | (21,190) | **3,936,742** | **0** |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig** | **423,469** | **0** | **0** | **423,469** | **3,957,932** | **(21,190)** | **3,936,742** | **4,360,211** |
| Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn | **(423,469)** | **423,469** | **1,350,000** | **1,350,000** | **(1,350,000)** | | **(1,350,000)** | **0** |
| **Cynnydd/(Gostyngiad yn y Flwyddyn)** | **0** | **423,469** | **1,350,000** | **1,773,469** | **2,607,932** | **(21,190)** | **2,586,742** | **4,360,211** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **212,080** | **465,341** | **1,350,000** | **2,027,421** | **43,601,229** | **(45,599)** | **43,555,630** | **45,583,051** |

| **Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn** | **Balans y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol £** | **Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig y Gronfa Gyffredinol £** | **Cronfa Derbynebau Cyfalaf Defnyddiadwy £** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £** | **Cyfrif Addasiadau Cyfalaf £** | **Cyfrif Absenoldebau Cronedig £** | **Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn £** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2020 a Ddygwyd Ymlaen** | **212,080** | **0** | **0** | **212,080** | **36,518,359** | **0** | **36,518,359** | **36,730,439** |
| <u>**Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn 2020/21**</u> | | | | | | | | |
| Gwarged / (Diffyg) ar y Cyfrif Incwm a Gwariant | 4,492,402 | 0 | **0** | 4,492,402 | 0 | 0 | **0** | **4,492,402** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **4,492,402** | **0** | **0** | **4,492,402** | **0** | **0** | | **4,492,402** |
| Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu | (4,450,529) | | | (4,450,529) | 4,474,938 | (24,409) | **4,450,530** | **0** |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig** | **41,872** | **0** | **0** | **41,872** | **4,474,938** | **(24,409)** | **4,450,530** | **4,492,402** |
| Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig | **(41,872)** | **41,872** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cynnydd/(Gostyngiad yn y Flwyddyn)** | **0** | **41,872** | **0** | **41,872** | **4,474,938** | **(24,409)** | **4,450,530** | **4,492,402** |
| | | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **212,080** | **41,872** | **0** | **253,952** | **40,993,297** | **(24,409)** | **40,968,889** | **41,222,841** |

## Mantolen ar 31 Mawrth 2022

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys dwy adran fantoli – asedau net y Cydbwyllgor a chyfanswm y cronfeydd wrth gefn a ddelir.

| 31 Mawrth 2021 £ | | Nodiadau | 31 Mawrth 2022 £ |
|---|---|---|---|
| 2,474,938 | Eiddo, Peiriannau ac Offer - Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu | 12 | 1,286,236 |
| 0 | Eiddo, Peiriannau ac Offer | 12 | 2,476,635 |
| 2,000,000 | Buddsoddiadau Hirdymor | 15 | 2,000,000 |
| 37,415,231 | Dyledwyr Hirdymor | 15 | 36,364,563 |
| **41,890,169** | **Asedau Hirdymor** | | **42,127,434** |
| 6,677,207 | Dyledwyr Byrdymor | 13 | 6,957,078 |
| 47,803,597 | Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod | 14 | 65,300,564 |
| **54,480,804** | **Asedau Cyfredol** | | **72,257,642** |
| (13,287,206) | Credydwyr Byrdymor | 17 | (46,177,490) |
| (24,409) | Cyfrif Absenoldebau Cronedig | 16 | (45,599) |
| **(13,311,615)** | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | **(46,223,089)** |
| (41,836,518) | Credydwyr Hirdymor | 17 | (22,578,935) |
| **(41,836,518)** | **Rhwymedigaethau Hirdymor** | | **(22,578,935)** |
| **41,222,840** | **Asedau Net** | | **45,583,052** |
| 253,952 | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | 18,19 | 2,027,421 |
| 40,993,297 | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 21 | 43,601,230 |
| (24,409) | Cyfrif Absenoldebau Cronedig | 16 | (45,599) |
| **41,222,840** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn** | | **45,583,052** |

## Datganiad Llif Arian Parod 2021/22

Mae’r datganiad hwn yn dangos sut mae’r Cydbwyllgor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chywerthoedd arian parod drwy ddosbarthu’r llif arian yn un sy’n codi o weithgarwch gweithredu, buddsoddi ac ariannu.

| 31 Mawrth 2021 £ | | Nodiadau | 31 Mawrth 2022 £ |
|---|---|---|---|
| (4,492,401) | Gwarged / (Diffyg) net o ran Darparu Gwasanaethau | | (4,360,211) |
| 6,396,696 | Addasu gwarged neu ddiffyg net o ran darparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn rhai arian parod | 20 | 4,894,633 |
| **1,904,295** | **Llifoedd arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **534,422** |
| 6,571,810 | Gweithgareddau buddsoddi | 20 | 4,829,459 |
| (12,250,000) | Gweithgareddau ariannu | 20 | (22,860,848) |
| **(3,773,894)** | **(Cynnydd) / gostyngiad net mewn arian parod a chywerthoedd arian parod** | | **(17,496,968)** |
| (44,029,702) | Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddechrau’r cyfnod adrodd | | (47,803,596) |
| **(47,803,597)** | **Balans arian parod ar 31 Mawrth** | | **(65,300,564)** |

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd

### 1. Taliadau Cydnabyddiaeth

Caiff swyddogion sy'n cefnogi gweithgarwch y Cydbwyllgor eu cyflogi trwy gontract trwy un o'r awdurdodau partner neu sefydliadau eraill y sector cyhoeddus.

Yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 – Buddion i Gyflogeion, mae angen i'r corff sy'n cyflogi ddatgelu rhywfaint o wybodaeth benodol ynglŷn ag incwm a gwariant ei gynllun pensiwn a'i asedau a'i rwymedigaethau cysylltiedig. Gan nad yw'r Cydbwyllgor yn cyflogi staff yn uniongyrchol, nid yw'r datgeliadau statudol hyn yn gymwys (yn lle hynny caiff rhwymedigaethau o ran pensiynau staff ayyb. y swyddogion perthnasol eu datgelu yn natganiadau ariannol pob corff cyflogi).

Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2014, mae'r Cydbwyllgor hefyd yn datgelu, yn wirfoddol:

- nifer y cyflogeion y mae eu taliadau cydnabyddiaeth yn fwy na £60,000 y flwyddyn wedi eu datgelu fesul bandiau o £5,000.
- taliadau cydnabyddiaeth a theitl swydd uwch gyflogeion sy'n rhan o'r uwch dîm rheoli ac y mae eu cyflog yn £60,000 neu fwy y flwyddyn.

Dangosir y rhain yn y tablau isod.

| Band Taliadau Cydnabyddiaeth | Nifer y Cyflogeion | |
|---|---|---|
| **£** | **2020/21** | **2021/22** |
| 115,000 - 119,999 | 1 | 1 |
| 90,000 - 94,999 | 0 | 1 |
| 85,000 - 89,999 | 1 | 0 |
| 70,000 - 74,999 | 1 | 1 |
| 65,000 - 69,999 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **4** | **4** |

| Teitl y Swydd | Cyflog, ffioedd a lwfansau £ | Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwyr £ | Cyfanswm £ | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr y Fargen Ddinesig | 118,554 | 27,386 | 145,940 | Dechreuodd y swydd fis Awst 2018. |
| Prif Swyddog Gweithredu | 90,320 | 18,696 | 109,016 | Dechreuodd y swydd fis Awst 2019. |
| Pennaeth Cyllid, Risg a Sicrwydd | 72,292 | 14,964 | 87,257 | Dechreuodd y swydd fis Awst 2019. |
| Pennaeth Twf Cynhwysol a Datblygu Busnes | 74,442 | 14,289 | 88,731 | Dechreuodd y swydd fis Gorffennaf 2019. Cyflog blynyddol 21-22 o £69,030, mae'r balans a dalwyd yn ymwneud ag addasiadau ynghlwm a thâl 20-21. |
| Pennaeth Llywodraethiant, Polisi a Chyfathrebu | 32,957 | 6,822 | 39,779 | Dechreuodd y swydd Hydref 2021. Cyflog Blynyddol o £65,914. |
| Pennaeth Arloesi a Chlystyrau | 49,166 | 10,177 | 59,344 | Dechreuodd y swydd fis Awst 2021. Cyflog Blynyddol o £72,292. |
| Pennaeth Arloesi Digidol a Data | 38,450 | 7,959 | 46,409 | Dechreuodd y swydd fis Medi 2020 Cyflog Blynyddol o £65,914. |
| **Cyfanswm Uwch Staff** | **476,181** | **100,295** | **576,476** | |

Sylwer: Mae costau Cronedig Absenoldeb a Gronnwyd y Swyddogion hyn yn dod i gyfanswm o £18,992 â Chyfraniadau YG Cyflogwr o £57,847.

## Blwyddyn Flaenorol er mwyn Cymharu:

| Teitl y Swydd | Cyflog, ffioedd a lwfansau £ | Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwyr £ | Cyfanswm £ | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr y Fargen Ddinesig | 116,802 | 26,981 | 143,783 | Dechreuodd y swydd fis Awst 2018. |
| Prif Swyddog Gweithredu | 88,985 | 18,420 | 107,405 | Dechreuodd y swydd fis Awst 2019. Cyflog Blynyddol o £86,603. |
| Pennaeth Cyllid, Risg a Sicrwydd | 71,224 | 14,743 | 85,967 | Dechreuodd y swydd fis Awst 2019. Cyflog Blynyddol o £69,317. |
| Pennaeth Twf Cynhwysol a Datblygu Busnes | 63,331 | 11,255 | 74,587 | Dechreuodd y swydd fis Gorffennaf 2019. |
| **Cyfanswm Uwch Staff** | **340,342** | **71,400** | **411,742** | |

## 1. Safle

Mae’r tabl canlynol yn dadansoddi gwariant safleoedd am y flwyddyn.

| 2020/21 £ | Safle | 2021/22 £ |
|---|---|---|
| 15,120 | Rhenti | 15,000 |
| 314 | Gwariant arall sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 965 |
| **15,434** | **Cyfanswm** | **15,965** |

## 2. Trafnidiaeth

Mae’r tabl canlynol yn dadansoddi gwariant ar drafnidiaeth am y flwyddyn.

| 2020/21 £ | Trafnidiaeth | 2021/22 £ |
|---|---|---|
| 2,440 | Lwfansau Car | (84) |
| 1,224 | Treuliau Teithio | 973 |
| **3,663** | **Cyfanswm** | **889** |

## 3. Cyflenwadau a Gwasanaethau

Mae’r tabl canlynol yn dadansoddi gwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau am y flwyddyn.

| 2020/21 £ | Cyflenwadau a Gwasanaethau | 2021/22 £ |
|---|---|---|
| 36,466 | TGCh, Ffonau, Argraffu a Meddalwedd | 25,992 |
| 22,607 | Llogi Ystafelloedd Cyfarfod a Chostau Cyfarfodydd Eraill | 29,409 |
| 136,686 | Marchnata, Brandio a Chyfathrebiadau | 104,732 |
| 1,659,506 | Datblygu a Chefnogi Rhaglenni* | 1,847,917 |
| 150,000 | Grantiau Prosiectau Refeniw** | 341,208 |
| 182,763 | Costau Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill | 715,841 |
| **2,188,028** | **Cyfanswm** | **3,065,098** |

*Mae Datblygu a Chefnogi Rhaglenni yn ymwneud ag ystod o gyngor a chymorth proffesiynol sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod pob prosiect a ddygir ymlaen yn gadarn ac wedi mynd trwy'r lefel her a gwirio annibynnol angenrheidiol i gydymffurfio â gofynion y Fframwaith Sicrwydd. Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriaeth gyfreithiol, diwydrwydd dyladwy, profi’r farchnad a chostau yr aethpwyd iddynt wrth baratoi Achosion Busnes sy’n cydymffurfio â Thrysorlys EM.

| **Grantiau Prosiectau Refeniw | 2021/22 £ |
|---|---|
| FinTech Wales | 150,000 |
| Cyber Masters - Prifysgol Caerdydd | 178,500 |
| Media.Cymru | 12,708 |
| **Cyfanswm** | **341,208** |

## 4. Gwariant Refeniw a Ariennir gan Gyfalaf dan Statud (GRAGDS)

Ystyriwyd y symiau refeniw canlynol yn wariant cyfalaf i'w dalu o adnoddau cyfalaf. Mae'r tabl yn cynnwys gwariant ar eitemau nad ydynt yn arwain at greu neu wella ased ar gyfer y Cydbwyllgor.

| **2020/21 £** | **Gwariant Refeniw a Ariennir gan Gyfalaf dan Statud (GRAGDS)** | **2021/22 £** |
|---|---|---|
| 1,086,000 | Cyfraniad Prosiect y Metro Canolog | 0 |
| 0 | Her Traceostomi BIPBC | 400,000 |
| **(1,086,000)** | **Codwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant** | **400,000** |
| | **Ariannwyd gan:** | 0 |
| (1,086,000) | Grantiau a Chyfraniadau | (400,000) |
| **(1,086,000)** | **Cyfanswm** | **(400,000)** |

## 5. Gwasanaethau Cymorth

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi gwariant ar wasanaethau cymorth am y flwyddyn.

| **2020/21 £** | **Gwasanaethau Cymorth** | **2021/22 £** |
|---|---|---|
| 8,570 | Gwasanaethau Pobl AD | 18,456 |
| 68,267 | Cymorth Cyfrifeg | 130,212 |
| 4,857 | Trysorlys, Archwilio Mewnol ac Yswiriant | 4,857 |
| 60,540 | Cymorth Cyfreithiol a Llywodraethiant | 121,060 |

| | | |
|---|---|---|
| 13,534 | TGCh, Gwybodaeth a Llywodraethiant | 20,231 |
| 0 | Gwasanaethau Cyfieithu | 8,270 |
| 30,882 | Archwilio Allanol | 44,073 |
| 2,277 | Cymorth arall | 205 |
| **188,927** | **Cyfanswm** | **347,364** |

## 6. Incwm

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi incwm y cyfrifwyd amdano yn ystod y flwyddyn.

| 2020/21 £ | Incwm | 2021/22 £ |
|---|---|---|
| (2,190,817) | Cyfraniadau gan Awdurdodau Lleol | (1,160,058) |
| (129,661) | Ffioedd a Chostau | (94,556) |
| (2,183,693) | Incwm o Grantiau | (4,562,130) |
| **(4,504,171)** | **Cyfanswm** | **(5,816,744)** |

Mae Cyfraniadau gan Awdurdodau Lleol yn perthyn i Gyllideb Refeniw y Cydbwyllgor gan y deg awdurdod partner.

Mae Incwm Ffioedd a Chostau'n ymwneud â chostau yr eir iddynt gan y Fargen Ddinesig a godir ar gyrff eraill, er enghraifft, ad-dalu costau staff, neu waith a ariennir gan grantiau a ddyrannir i gyrff eraill ac a anfonebir iddynt felly.

Mae Incwm Grant yn dod o arian a roddir trwy Grant Refeniw Trysorlys EM:

| 2020/21 £ | Grantiau a Chyfraniadau a Gredydir i Incwm Gweithredu | 2021/22 £ |
|---|---|---|
| (2,183,693) | Grant Refeniw Trysorlys EM y CFE | (4,562,130) |
| **(2,183,693)** | **Cyfanswm** | **(4,562,130)** |

| 2020/21 £ | Derbyniadau Grantiau a Chyfraniadau Ymlaen Llaw | 2021/22 £ |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| (4,569,000) | Grant Refeniw Trysorlys EM y CFE - Credydwr Byrdymor | (43,469,300) |
| (250,000) | Grant Cronfa Her Menter Ymchwil Busnesau Bach | (200,000) |
| **(4,819,000)** | **Is-gyfanswm** | **(43,669,300)** |
| (42,086,518) | Grant Refeniw Trysorlys EM y CFE - Credydwr Hirdymor | (17,778,935) |
| 0 | Arian Bwlch Hyfywedd Tai - Credydwr Hirdymor | (5,000,000) |
| **(42,086,518)** | **Is-gyfanswm** | **(22,778,935)** |
| | | |
| **(46,905,518)** | **Cyfanswm** | **(66,448,235)** |

Mae'r broses o ddosbarthu balansau Credydwyr rhwng y rhai sydd i'w defnyddio ar sail byrdymor neu hirdymor yn cael ei chynnal ar sail yr adnoddau y nodir y byddant ar gael i'w defnyddio yn y flwyddyn ariannol nesaf (byrdymor) neu wedi hynny (hirdymor) yn y Cynllun Busnes Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer y cyfnod perthnasol. Mae hyn yn amodol ar gymeradwyo ac amseru gwariant ar brosiectau ac fe'i cofnodir fel rhan o'r diweddariadau Chwarterol a roddir i'r Cydbwyllgor.

## 7. Dadansoddiad Gwariant a Chyllido

Mae’r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu’n dangos sut cafodd y arian sydd ar gael i’r Cydbwyllgor ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau o gymharu â’r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir dan Arferion Cyfrifyddu sy'n Gyffredinol Dderbyniol (ACGDd).

| **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu 2021/22** | Gwariant Net i’w Godi ar Falansau Cronfa Gyffredinol **£** | Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu ac ariannu - Cyfalaf **£** | Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu ac ariannu - Arall **£** | Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2021/2022 **£** |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff | 1,730,208 | 0 | 21,191 | 1,751,398 |
| Safle | 15,965 | 0 | 0 | 15,965 |
| Trafnidiaeth | 234,383 | 0 | 0 | 889 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 2,815,315 | 0 | 0 | 3,065,098 |
| Gwariant Refeniw a Ariennir Gan Gyfalaf Dan Statud | 400,000 | 0 | 0 | 400,000 |
| Gwasanaethau Cymorth | 347,364 | 0 | 0 | 347,364 |
| Costau Cyfalaf | | (412,773) | 0 | 412,773 |
| Cyfraniadau gan Awdurdodau Lleol | (1,160,058) | 0 | 0 | (1,160,058) |
| Incwm o Grantiau | (4,578,894) | 0 | 0 | (4,562,130) |
| Ffioedd a Chostau | (117,424) | 0 | 0 | (94,556) |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **(313,141)** | **(412,773)** | **21,191** | **176,742** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llog ac Incwm Buddsoddi | (166,248) | 0 | 0 | (166,248) |
| Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf Cydnabyddedig | 0 | 5,180,706 | 0 | (5,180,706) |
| **(Gwarged) neu Ddiffyg** | **(479,389)** | **4,767,933** | **21,191** | **(5,170,212)** |

| | |
|---|---|
| | |
| Balans Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy Agoriadol 1 Ebrill 2021 | (253,952) |
| | |
| **Plws Gwarged ar Falans Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy yn ystod y Flwyddyn** | |
| Trosglwyddo, Cronfa Gyffredinol i'r Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig | (423,469) |
| Trosglwyddo, Cyfrif Addasiadau Cyfalaf i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn Ddefnyddiadwy | (1,350,000) |
| **Balans Clo'r Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy 31 Mawrth 2022** | **(2,027,421)** |

| **2020/21 er Cymhariaeth** | **Gwariant Net y gellir ei godi ar Falansau'r Gronfa Gyffredinol** £ | **Addasiadau rhwng y Seiliau Cyfrifyddu ac Ariannu - Cyfalaf £** | **Addasiadau rhwng y Seiliau Cyfrifyddu ac Ariannu - Arall £** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2020/21** £ |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff | 1,136,238 | 0 | 24,409 | 1,160,647 |
| Safle | 15,434 | 0 | 0 | 15,434 |
| Trafnidiaeth | 3,663 | 0 | 0 | 3,663 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau (gan gynnwys GRAGDS) | 3,274,028 | 0 | 0 | 3,274,028 |
| Gwasanaethau Cymorth | 188,927 | 0 | 0 | 188,927 |
| Cyfraniadau gan Awdurdodau Lleol | (2,190,817) | 0 | 0 | (2,190,817) |
| Incwm o Grantiau | (2,183,693) | 0 | 0 | (2,183,693) |
| Ffioedd a Chostau | (129,661) | 0 | 0 | (129,661) |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **114,119** | **0** | **24,409** | **138,528** |
| Llog ac Incwm Buddsoddi | (155,991) | 0 | 0 | (155,991) |
| Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf Cydnabyddedig | (4,474,938) | 0 | 0 | (4,474,938) |
| Incwm a Gwariant Arall o'r Dadansoddiad Ariannu | 4,474,938 | (4,474,938) | 0 | 0 |
| **(Gwarged) neu Ddiffyg** | **(41,872)** | **(4,474,938)** | **24,409** | **(4,492,401)** |

| | |
|---|---|
| | |
| Balans Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy Agoriadol 1 Ebrill 2020 | (212,080) |
| | |
| Plws Gwarged ar Falans Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy yn ystod y Flwyddyn | (41,872) |
| | |
| **Balans Clo'r Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy 31 Mawrth 2021** | **(253,952)** |

## 8. Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido dan y Rheoliad

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i'r cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr, a gydnabyddir gan y Cydbwyllgor yn y flwyddyn, yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol i'r adnoddau a nodir gan ddarpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i'r Cydbwyllgor i dalu gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

| **2021/22** | **Symudiad y Gronfa Gyffredinol £** | **Symudiad Cyfrif Addasiadau Cyfalaf £** | **Symudiad Cyfrif Absenoldebau Cronedig £** | **Symudiad Cronfeydd Wrth Gefn £** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfrif Addasiadau Cyfalaf:** | | | | |
| Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf gafodd eu credydu i'r CIES sydd wedi'u cymhwyso i ariannu cyfalaf | (5,180,706) | 5,180,706 | 0 | **0** |
| Costau am ddibrisiant ac amhariad ar Asedau Anghyfredol | 412,773 | (412,773) | 0 | **0** |
| **Cyfrif Absenoldebau Cronedig:** | | | | |
| Y swm y mae taliadau cydnabyddiaeth swyddogion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail gronnol yn wahanol i'r taliadau cydnabyddiaeth i'w codi yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol. | 21,190 | | (21,190) | **0** |
| **Cyfanswm** | **(4,746,743)** | **4,767,933** | **(21,190)** | **0** |

| 2020/21 er Cymhariaeth | Symudiad y Gronfa Gyffredinol £ | Symudiad Cyfrif Addasiadau Cyfalaf £ | Symudiad Cyfrif Absenoldebau Cronedig £ | Symudiad Cronfeydd Wrth Gefn £ |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfrif Addasiadau Cyfalaf:** | | | | |
| Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf gafodd eu credydu i'r CIES sydd wedi'u cymhwyso i ariannu cyfalaf | (4,474,938) | 4,474,938 | 0 | **0** |
| **Cyfrif Absenoldebau Cronedig:** | | | | |
| Y swm y mae taliadau cydnabyddiaeth swyddogion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail gronnol yn wahanol i'r taliadau cydnabyddiaeth i'w codi yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol. | 24,409 | | (24,409) | **0** |
| **Cyfanswm** | **(4,450,529)** | **4,474,938** | **(24,409)** | **0** |

## 9. Partïon Cysylltiedig

Mae angen i'r Cydbwyllgor ddatgelu trafodion perthnasol â phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar y Cydbwyllgor neu gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan y Cydbwyllgor. Mae datgelu'r trafodion hyn yn galluogi darllenwyr i asesu i ba raddau y gallai'r Cydbwyllgor fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu o bosib sicrhau'r gallu i gyfyngu gallu parti arall i fargeinio'n rhydd â'r Cydbwyllgor.

Mae ariannu gwariant gan y deg Awdurdod Lleol cyfansoddol yn cyd-fynd â Chytundeb Cydweithio'r Fargen Ddinesig ac fe'i cymeradwywyd gan arweinydd pob Awdurdod drwy benderfyniad yng nghyfarfodydd y Cabinet Rhanbarthol.

Mae gan Lywodraeth Cymru y gallu i beri dylanwad ar y Cydbwyllgor trwy ddeddfwriaeth ac arian grant. Mae'r grantiau a dderbyniwyd yn 2021/22 yn nodyn 7.

Manylir ar drafodion o'r fath isod.

| Trafodion Partïon Cysylltiedig | Refeniw | Cyfalaf | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| CBS Blaenau Gwent | (53,592) | 0 | (53,592) |
| CBS Pen-y-bont ar Ogwr | (109,498) | 0 | (109,498) |
| CBS Caerffili | (138,837) | 0 | (138,837) |
| Cyngor Dinas Caerdydd | (275,233) | 0 | (275,233) |
| CBS Merthyr Tudful | (45,716) | 0 | (45,716) |
| Cyngor Sir Fynwy | (71,263) | 0 | (71,263) |
| Cyngor Dinas Casnewydd | (113,873) | 0 | (113,873) |
| CBS Rhondda Cynon Taf | (182,952) | 0 | (182,952) |
| CBS Torfaen | (70,770) | 0 | (70,770) |
| Cyngor Bro Morgannwg | (98,324) | 0 | (98,324) |
| **Is-gyfanswm: Cyfraniadau Awdurdodau Lleol** | **(1,160,058)** | **0** | **(1,160,058)** |
| Cyllid Grant Cyfalaf Trysorlys Ei Mawrhydi (drwy Lywodraeth Cymru) | 0 | (22,000,000) | (22,000,000) |
| Cyllid Grant Cerbydau Allyriadau Isel Iawn | (410,846) | (1,700,706) | (2,111,552) |
| Grant Cronfa Her Menter Ymchwil Busnesau Bach | (200,000) | 0 | (200,000) |
| Grant CBC | (250,000) | 0 | (250,000) |
| **Is-gyfanswm: Cyfraniadau gan Bartïon Eraill** | **(860,846)** | **(23,700,706)** | **(24,561,552)** |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **(2,020,904)** | **(23,700,706)** | **(25,721,610)** |

| Er Cymhariaeth - Trafodion Parti Cysylltiedig 2020/21 | Refeniw | Cyfalaf | 2020/21 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| CBS Blaenau Gwent | (101,210) | (92,395) | (193,605) |
| CBS Pen-y-bont ar Ogwr | (206,792) | (188,780) | (395,572) |
| CBS Caerffili | (262,199) | (239,362) | (501,561) |
| Cyngor Dinas Caerdydd | (519,788) | (474,515) | (994,303) |
| CBS Merthyr Tudful | (86,336) | (78,817) | (165,153) |
| Cyngor Sir Fynwy | (134,584) | (122,862) | (257,445) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Dinas Casnewydd | (215,054) | (196,323) | (411,376) |
| CBS Rhondda Cynon Taf | (345,513) | (315,419) | (660,932) |
| CBS Torfaen | (133,652) | (122,011) | (255,664) |
| Cyngor Bro Morgannwg | (185,689) | (169,516) | (355,205) |
| **Is-gyfanswm: Cyfraniadau Awdurdodau Lleol** | **(2,190,817)** | **(2,000,000)** | **(4,190,817)** |
| Cyllid Grant Refeniw Trysorlys Ei Mawrhydi (drwy Lywodraeth Cymru) | (10,000,000) | 0 | (10,000,000) |
| Grant Cronfa Her Menter Ymchwil Busnesau Bach | (250,000) | 0 | (250,000) |
| Cyllid Grant Cerbydau Allyriadau Isel Iawn | (2,474,938) | 0 | (2,474,938) |
| **Is-gyfanswm: Cyfraniadau gan Bartïon Eraill** | **(12,724,938)** | **0** | **(12,724,938)** |
| Gwariant GRAGDS Canolog y Metro (Llywodraeth Cymru) | 0 | 1,086,000 | 1,086,000 |
| **Is-gyfanswm: Gwariant Partïon Cysylltiedig** | **0** | **1,086,000** | **1,086,000** |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **(14,915,755)** | **(914,000)** | **(15,829,755)** |

## Cofrestru a Datgan Buddiannau

Datblygwyd cofrestr i olrhain, nodi a diweddaru Datganiadau Buddiannau ar gyfer pob Pwyllgor, Is-bwyllgor, Bwrdd a grŵp swyddogion allweddol yn P-RC.

Defnyddiwyd ffurflenni wedi'u diweddaru sy'n ceisio nodi buddiannau ar sail ranbarthol, yn hytrach na lleol. Caiff yr ymarfer hwn ei olrhain drwy'r 'Gofrestr Datgan Buddiannau', sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol, megis: Dyddiad cyhoeddi/dychwelyd/uwchlwytho’r ffurflen ar wefan y Fargen Ddinesig, dyddiadau unrhyw ddiwygiadau a gyflwynwyd, newidiadau i aelodaeth yn ystod y flwyddyn ac ati.

Nid yw'r adolygiad o'r datganiadau a wnaed wedi ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ddatgeliadau parti cysylltiedig gael eu nodi yn y Datganiad Cyfrifon.

## 10. Costau Archwilio Allanol

| 2020/21<br>£ | Costau Archwilio Allanol | 2021/22<br>£ |
|---|---|---|
| 24,500 | Archwiliad Ariannol y Cydbwyllgor | 29,043 |
| 20,748 | Archwiliad Perfformiad y Cydbwyllgor | 21,515 |
| **45,248** | **Cyfanswm** | **50,558** |

Mae Nodyn 11 yn cofnodi'r Ffi Archwilio a gynigiwyd ar gyfer archwiliad y flwyddyn yn unol â'r Cynlluniau Archwilio a gyflwynwyd i'r Cabinet Rhanbarthol sy'n wahanol i'r rhai a ddangosir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Nodyn 6 uchod sy'n dangos costau gwirioneddol yn ystod y flwyddyn, sy'n cynnwys croniadau ar gyfer costau a gynlluniwyd ynghyd â gwahaniaethau rhwng costau a gynlluniwyd a chostau gwirioneddol. Codir costau terfynol archwiliad 2021/22 ar ôl cwblhau'r gwaith archwilio.

## 11. Eiddo, Peiriannau ac Offer

| Eiddo, Peiriannau ac Offer | Tir ac Adeiladau Eraill | Cerbydau, Peiriannau ac Offer | Cerbydau, Peiriannau Trwm ac Offer Yn Cael Ei Adeiladu | Cyfanswm Eiddo, Peiriannau ac Offer |
|---|---|---|---|---|
| **Symudiadau o ran Cost neu Werth** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **01-Ebrill-20** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 2,474,938 | **2,914,474** |
| **31-Maw-21** | **0** | **0** | **2,914,474** | **2,914,474** |
| Ychwanegiadau | 0 | 414,470 | 1,286,236 | **1,700,706** |
| Ailddosbarthiadau eraill - Trosglwyddiadau | 0 | 2,474,938 | (2,474,938) | **0** |
| **31-Maw-22** | **0** | **2,889,408** | **1,286,236** | **4,175,644** |

| Symudiadau mewn Dibrisiant/Amhariad | £ | £ | £ | £ |
|---|---|---|---|---|
| **01-Ebrill-20** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Tâl Dibrisiant | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **31-Maw-21** | **0** | **0** | **0** | **0** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tâl Dibrisiant | 0 | 412,773 | 0 | **412,773** |
| **31-Maw-22** | **0** | **412,773** | **0** | **412,773** |

| **Gwerth Ased Net** | **£** | **£** | **£** | **£** |
|---|---|---|---|---|
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **0** | **0** | **2,914,474** | **2,914,474** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **0** | **2,476,635** | **1,286,236** | **3,762,871** |

Mae’r Asedau Hirdymor Eraill yn ymwneud â buddsoddi ac fe'u dangosir yn Nodyn 15: Offerynnau Ariannol

## 12. Dyledwyr Byrdymor

| **31 Mawrth 2021 £** | **Dyledwyr Byrdymor** | **31 Mawrth 2022 £** |
|---|---|---|
| 0 | Cyrff y Llywodraeth Ganolog | 249,509 |
| 4,800,243 | Awdurdodau Lleol eraill | 1,548,465 |
| 1,876,964 | Endidau ac Unigolion Eraill | 5,159,104 |
| **6,677,207** | **Cyfanswm** | **6,957,078** |

Mae prif elfennau'r Balansau Dyledwyr gydag Awdurdodau Lleol Eraill ar 31 Mawrth 2022 yn ganlyniad i amseru'r ail godi tâl sy'n cael ei wneud ar Ddiwedd y Flwyddyn Ariannol ac yn bennaf yn cynnwys £1.519m mewn arian grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cerbydau Trydan Isel Iawn i'w drosglwyddo i P-RC gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Mae'r Balans Dyledwyr gydag Endidau ac Unigolion Eraill yn cynnwys ad-daliadau o fenthyciadau a wnaed yn bennaf i CSC Foundry (£3,628,171) a ZipWorld (£500,625) a oedd yn daladwy yn 2022/23 ynghyd â thaliad mewn escrow o £810,000 ynghlwm ag elfen adneuo pryniant arfaethedig CCR Energy o Orsaf Bŵer Aberddawan.

## 13. Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod

Nid yw'r Cydbwyllgor yn gweithredu ei Gyfrif Banc ei hun, yn lle hynny, gweinyddir pob trafodyn arian parod gan Gyngor Caerdydd yn ei rôl fel Corff Atebol yn unol â'r strategaeth rheoli trysorlys. Cydnabyddir y llog a dderbynnir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Cynrychiolir y swm o £65,300,564 a ddangosir fel Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod yn y Fantolen gan arian a ddelir gan Gyngor Caerdydd yn fuddsoddiadau ac arian parod rhyng-awdurdod ar ran y Cydbwyllgor ac mae ar gael ar unwaith at ddefnydd y Cydbwyllgor.

| 31 Mawrth 2021 £ | Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod | 31 Mawrth 2022 £ |
|---|---|---|
| 47,803,597 | Arian Parod Rhyng-gwmnïol Cyngor Caerdydd | 65,300,564 |
| **47,803,597** | **Cyfanswm** | **65,300,564** |

## 14. Offerynnau Ariannol

Mae 'Offerynnau Ariannol' y Cydbwyllgor yn cynnwys Asedau Ariannol ar ffurf benthyciadau, ecwiti a symiau syd wedi eu cofnodi yn y nodyn Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod (Nodyn 14) uchod. Delir neu caffaelir benthyciadau ac ecwiti at ddibenion polisi'r Cydbwyllgor ac maent wedi eu dethol i'w cyfrifo yn Werth Teg trwy Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae 'Ecwiti' yn cyfeirio at fuddsoddiad £2.00m BDdPRC yn Healthcare Evaluation Associates Ltd (Pharmaintelligence Ltd gynt) a'u 'Project Livingstone' sy'n cefnogi'r gwaith o fasnacheiddio a chyflwyno cynnyrch meddalwedd dadansoddol yn y maes data meddygol. Mae'r buddsoddiad yn rhoi cyfranddaliadau o 16.67% i BDdPRC, nad yw'n cynrychioli unrhyw fath o 'reolaeth'.

Ariannodd benthyciad i Compound Semi-Conductor Foundry Ltd (CSC Foundry Ltd.) at gaffael (gan Lywodraeth Cymru) adeilad y Ffowndri yn ogystal â'r gwaith o'i ailwampio, ei ffitio a'r costau cychwyn busnes newydd cychwynnol. Tynnwyd ar fenthyciadau gwerth £24.66m yn 2017/18 a £12.46m yn 2018/19. Mae'r benthyciad wedi'i broffilio i'w ad-dalu dros gyfnod o 11 mlynedd gydag ad-daliadau'n dechrau ym mis Awst 2021. Caiff yr ad-daliadau benthyciad eu hailgylchu'n ôl i'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach a'u defnyddio i ariannu

prosiectau'r Fargen Ddinesig yn y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed ad-daliad o £1.35m gan arwain at gydbwysedd diwygiedig o £35.77m yn weddill ar fantolen CCRCD ar 31 Mawrth 2022.

Gwnaed benthyciad pellach o £2.06m i Creo Medical Ltd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu technoleg sterileiddio a dadhalogi plasma oer. Tynnwyd y benthyciad i lawr ym mis Gorffennaf 2020, mae ganddo ddyddiad ad-dalu olaf un ym mis Gorffennaf 2025 a chyfnod di-log hyd at fis Hydref 2021. Mae llog tybiannol o £60,170 (2020/21: £41,872) wedi ei gronni a'i gyfrif yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Gwnaethpwyd benthyciad arall o £2.67m i ZipWorld Ltd i greu atyniad Twristiaeth Antur Awyr Agored yn y rhanbarth. Tynnwyd y benthyciad i lawr ym mis Awst 2021 ac mae ganddo ddyddiad ad-dalu olaf un o Awst 2026. Mae'r llog yn daladwy o flwyddyn un, ond ni fydd taliadau llog yn cael eu derbyn tan fis Awst 2022 fel y nodir yn y cytundeb benthyciad. Ar sail hyn, mae llog tybiannol o £75,711 wedi'i gronni a'i gyfrif o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Dangosir yr Ecwiti, y Benthyciadau a’r Arian Parod a’r Cywerthoedd Arian Parod yn y cyfrifon ar eu gwerth cario.

Yn ystod y flwyddyn comisiynwyd Arlingclose i wneud cyfrifiad gwerth teg ar gyfer holl fuddsoddiadau a benthyciadau ecwiti BDdPRC. Mae'r tabl isod yn nodi'r symiau cario, y symiau gwerth teg a'r symudiadau rhyngddynt ar gyfer 2021/22.

Mewn cyfrifon blynyddoedd blaenorol, datgelwyd ecwiti a benthyciadau fel gwerth teg a oedd hefyd yn hafal i’w gwerth cario. Mae angen cyfrifiadau gwerth teg at ddibenion cyfrifyddu. Darperir ffigurau yma at ddibenion gwybodaeth gyfrifyddu a dim ond y gwerth cario sy'n cael ei gydnabod o fewn fantolen BDdPRC.

| **31 Mawrth 2021** | | | **31 Mawrth 2022** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Swm Cario (SC) £** | **Gwerth Teg (GT) £** | | **Swm Cario (SC) £** | **Gwerth Teg (GT) £** | **Symudiadau rhwng SC a GT £** |
| 2,000,000 | 2,000,000 | Buddsoddi Hirdymor - Ecwiti | 2,000,000 | 6,123,289 | 4,123,289 |
| 2,096,872 | 2,096,872 | Benthyciad CREO Medical Ltd | 2,158,042 | 2,200,016 | 41,974 |
| 37,118,359 | 37,118,359 | Benthyciad CSC Foundry Ltd | 35,768,358 | 37,899,069 | 2,130,711 |
| 0 | 0 | ZipWorld Ltd Benthyciad | 2,745,711 | 2,940,422 | 194,711 |
| 47,803,597 | 47,803,597 | Arian Parod a Chywerthoedd AP | 65,300,564 | 65,300,564 | 0 |
| **89,018,828** | **89,018,828** | **Cyfanswm** | **107,972,675** | **114,463,360** | **6,490,685** |

Mae'r amcangyfrif gwerth teg ar gyfer y buddsoddiad ecwiti yn Healthcare Associates Ltd wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r dull llif arian am byth ar 31 Mawrth 22 ac mae'n seiliedig ar refeniw a chostau rhagamcanol y cwmni hyd 2026/27 a'i ddatganiadau ariannol presennol. Nid yw'n seiliedig ar brisiau a ddyfynnir gan nad yw'r cwmni wedi ei restru. Gall y prisiad newid yn amodol ar berfformiad gwirioneddol y cwmni o ran elw ac incwm ynghyd â'r lluosyddion perthnasol yn y diwydiant o fewn meysydd gweithredu'r cwmni, addasiadau cyfrifo technegol a'r hinsawdd economaidd a dylid defnyddio unrhyw wybodaeth brisio cyfrifyddu yn ofalus.

Yn ogystal, mae'r amcangyfrifon gwerth teg ar gyfer CREO Medical Ltd, CSC Foundry Ltd a ZipWorld Ltd i gyd wedi'u cyfrifo drwy ddiystyru llif arian yn y dyfodol.

Enillion/Colledion Offerynnau Ariannol

Enillwyd llog o £30,366 (2020/21: £114,119) ar falensau Arian Parod y Cydbwyllgor a ddelir gan y Corff Atebol yn ystod y flwyddyn

Cytunwyd ar strwythur y benthyciad a wnaed i Compound Semi-Conductor Foundry Ltd (CSC Foundry Ltd) fel rhan o'r diwydrwydd dyladwy helaeth a'r cyngor Cymorth y Wladwriaeth cysylltiedig a wnaed er mwyn cymeradwyo'r cynnig buddsoddi. Cadarnhaodd hyn na fyddai'r buddsoddiad yn codi unrhyw dâl am gwponau neu log ac felly nid yw'r benthyciad wedi cynhyrchu unrhyw enillion neu golledion yn ystod y flwyddyn.

Mae telerau'r benthyciad a wnaed i CREO Medical Ltd yn golygu bod croniad o £60,170 (2020/21: £41,872) a llog a gronnodd ar gyfer ZipWorld Ltd o £75,711 i gydnabod taliadau llog yn y dyfodol sydd i ddod i law wedi'u cynnwys yng nghyfrifon y Cydbwyllgor ar gyfer 2020/21.

Natur a Graddau Risgiau sy'n deillio o Offerynnau Ariannol

Rheolir 'Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod' y Cydbwyllgor gan Gyngor Caerdydd yn unol â'i Strategaeth Rheoli Trysorlys gyffredinol.

Dim ond gyda banciau a chymdeithasau adeiladu sy'n bodloni maen prawf sylfaenol F1 Fitch y mae Cyngor Caerdydd yn gosod adneuon. Adolygir sgoriau'n rheolaidd a, hyd yn hyn, nid yw'r Cyngor wedi gweld unrhyw sefydliad yn diffygdalu ac nid ystyrir hyn fel risg sylweddol ar gyfer buddsoddiadau a ddelir. Felly, o ran 2021/22, penderfynwyd nad oes angen unrhyw ddarpariaethau ar gyfer colledion credyd disgwyliedig.

Mae adennilladwyedd y benthyciadau a wnaed i CSC Foundry Ltd yn destun adolygiadau rheolaidd gan aelodau bwrdd BDdPRC. Darperir diweddariadau prosiect chwarterol i BDdPRC gan y ddau fwrdd ar gyfer CREO Medical Ltd a ZipWorld Ltd ac maent yn destun

adolygiadau rheolaidd gan aelodau bwrdd BDdPRC ac ym mhob achos hefyd gan Swyddogion Prosiect BDdPRC a Chyfarwyddwr y Fargen Ddinesig. Mae'r ystod hon o fesurau yn cynnig y fframwaith ar gyfer adolygu gwerth benthyciadau'n barhaus, yn unol â hynny, ystyrir nad oes angen unrhyw amhariad o ran gwerth y benthyciadau sy'n weddill ar 31 Mawrth 2022.

## 15. Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn cynnwys y gwahaniaethau a ddigwyddai fel arall ym Malans y Cydbwyllgor drwy gronni ar gyfer absenoldebau a gronnwyd ond nas cymerwyd yn ystod y flwyddyn e.e. hawliad gwyliau blynyddol a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau y gwneir yn iawn yn llawn am yr effaith ar Falans y Cydbwyllgor gan drosglwyddiadau i mewn ac allan o'r Cyfrif.

| 2020/21 £ | Cyfrif Absenoldebau Cronedig | 2021/22 £ |
|---|---|---|
| 0 | **Balans ar 1 Ebrill** | (24,409) |
| (24,409) | Y swm y bydd taliadau cydnabyddiaeth swyddogion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail gronnol yn wahanol i'r taliadau cydnabyddiaeth i'w codi yn y flwyddyn yn unol â gofynion cyfrifyddu. | (21,190) |
| **(24,409)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(45,599)** |

## 16. Credydwyr

| Byrdymor £ | Hirdymor £ | 31 Mawrth 2021 £ | Credydwyr | Byrdymor £ | Hirdymor £ | 31 Mawrth 2022 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 10,131,601 | 41,836,518 | 51,968,119 | Cyrff y Llywodraeth Ganolog | 43,549,870 | 22,578,935 | 66,128,805 |
| 94,303 | 0 | 94,303 | Awdurdodau Lleol eraill | 34,961 | 0 | 34,961 |
| 3,061,303 | 0 | 3,061,303 | Endidau ac Unigolion eraill (gan gynnwys Corfforaethau Cyhoeddus) | 2,592,659 | 0 | 2,592,659 |
| **13,287,206** | **41,836,518** | **55,123,724** | **Cyfanswm** | **46,177,490** | **22,578,935** | **68,756,425** |

Derbyniwyd Grant Cyfalaf Trysorlys EM gwerth cyfanswm o £22.00m yn ystod y flwyddyn parthed pumed blwyddyn gyllid y Fargen Ddinesig. Caiff y grant ei drosglwyddo trwy Lywodraeth Cymru (y corff sy'n talu grantiau) yn dilyn derbyn eu telerau ac amodau grantiau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau, mewn unrhyw flwyddyn, pan fydd arian wedi'i ymrwymo a/neu mae bwriad clir i wario, caniateir cario arian ymlaen i flynyddoedd i ddod. Mae £6,042,230 o’r arian sydd ar gael wedi ei dynnu i lawr i dalu am wariant cymwys yn ystod y flwyddyn ariannol.

## 17. Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy

| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy 2020/21 £ | Cronfa Gyffredinol 2020/21 £ | Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig 2020/21 £ | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy 2020/21 £ | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | Cronfa Gyffredinol 2021/22 £ | Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig 2021/22 £ | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy 2020/21 £ | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy 2021/22 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **212,080** | 212,080 | 0 | 0 | **Balans ar 1 Ebrill** | 212,080 | 41,872 | 0 | **253,952** |
| | | | | Symudiadau yn ystod y flwyddyn: | | | | |
| **4,492,401** | 4,492,401 | 0 | 0 | Gwarged ar Ddarparu Gwasanaethau | 4,360,211 | 0 | 0 | **4,360,211** |
| **(4,474,938)** | (4,474,938) | 0 | 0 | Ariannu Gwariant, Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | (3,936,742) | 0 | 0 | **(3,936,742)** |
| **0** | 0 | 0 | 0 | Trosglwyddo o Gyfrif Addasiadau Cyfalaf | 0 | 0 | 1,350,000 | **1,350,000** |
| **24,409** | 24,409 | 0 | 0 | Ariannu Gwariant, Cyfrif Absenoldebau Cronedig | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **0** | (41,872) | 41,872 | | Trosglwyddo o’r Gronfa Gyffredinol I’r Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig | (423,469) | 423,469 | 0 | **0** |
| **253,952** | **212,080** | **41,872** | **0** | **Balans ar 31 Mawrth** | **212,080** | **465,341** | **1,350,000** | **2,027,421** |

## 18. Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig

| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig 2020/21 £** | **2020/21 £** | **Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig** | **2021/22 £** | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig 2021/22 £** |
|---|---|---|---|---|
| | 0 | **Balans ar 1 Ebrill** | **41,872** | |
| | | Symudiadau yn ystod y flwyddyn: | | |
| **41,872** | 41,872 | Cronfa Wrth Gefn Llog Buddsoddi Cronedig | 166,247 | **208,119** |
| **0** | 0 | Cronfa Wrth Gefn Costau Paratoi CBC | 227,222 | **227,222** |
| **0** | 0 | Cronfa Wrth Gefn Costau Adolygiad Gateway | 30,000 | **30,000** |
| **41,872** | **41,872** | **Is-gyfanswm: Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig** | **423,469** | **465,341** |
| **0** | 0 | Ad-daliad Benthyciad Cyfalaf a dderbyniwyd, a drosglwyddwyd o'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 1,350,000 | 1,350,000 |
| **0** | **0** | **Is-gyfanswm: Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy** | **1,350,000** | **1,350,000** |
| **41,872** | **41,872** | **Balans ar 31 Mawrth** | **1,815,341** | **1,815,341** |

## 19. Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian Parod

| **2021/22 £** | **Gweithgareddau Gweithredu** | **2021/22 £** |
|---|---|---|
| 2,496,166 | Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Credydwyr | 26,763 |
| (4,709,170) | (Cynnydd) / Gostyngiad mewn Dyledwyr | 3,598,667 |
| 0 | Costau Cyfalaf | 412,773 |
| (2,000,000) | Grantiau / cyfraniadau cyfalaf a gydnabyddir yn Incwm a Gwariant | (4,370,706) |
| (2,183,693) | Grantiau / cyfraniadau refeniw a gydnabyddir yn Incwm a Gwariant | (4,562,130) |
| **(6,396,697)** | **Addasiadau i warged neu ddiffyg net o ran darparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod** | **(4,894,633)** |

| **2021/22 £** | **Gweithgareddau Buddsoddi** | **2021/22 £** |
|---|---|---|
| 2,000,000 | Buddsoddiadau Hirdymor | 0 |
| 2,474,938 | Prynu Eiddo, Peiriannau ac Offer | 1,700,706 |
| 2,096,872 | Dyledwyr Hirdymor | 3,128,753 |
| **6,571,810** | **Addasiadau i warged neu ddiffyg net o ran darparu gwasanaethau ar gyfer gweithgareddau buddsoddi** | **4,829,459** |

| **2021/22 £** | **Gweithgareddau Ariannu** | **2021/22 £** |
|---|---|---|
| (10,000,000) | Grant Trysorlys EM a dderbyniwyd | (22,000,000) |
| (250,000) | Grant MYBB | (200,000) |
| 0 | Grant ULEV | (410,846) |
| 0 | Grant CBC | (250,001) |
| (2,000,000) | Cyfraniad cyfalaf a dderbyniwyd | 0 |
| **(12,250,000)** | **Addasiadau i warged neu ddiffyg net o ran darparu gwasanaethau ar gyfer gweithgareddau ariannu** | **(22,860,847)** |

## 20. Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae’r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn adlewyrchu gwahaniaethau rhwng arferion cyfrifyddu arferol a gofynion statudol. Mae hyn yn cynnwys trin dibrisiant, enillion neu golledion ar werth buddsoddiadau ac fe'i credydir gyda'r symiau a ddefnyddir fel cyllid ar gyfer gwariant cyfalaf.

| 2020/21<br>£ | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 2021/22<br>£ |
|---:|---|---:|
| **36,518,359** | **Balans ar 01 Ebrill** | **40,993,297** |
| | Ariannu cyfalaf a gymhwyswyd yn ystod y flwyddyn: | |
| 4,474,938 | Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf a gaiff eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 4,370,706 |
| 0 | Ad-daliad Benthyciad Cyfalaf a Dderbyniwyd, a drosglwyddwyd i’r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn Ddefnyddiadwy | (1,350,000) |
| 0 | Tâl Dibrisiant | (412,773) |
| **40,993,297** | **Balans ar 31 Mawrth** | **43,601,230** |

**Cyfrifon Grŵp**

### Cyflwyniad

Mae'r cyfrifon grŵp dilynol yn bodloni'r gofyniad yng Nghod Ymarfer 2021/22 sy'n nodi y dylai awdurdod lleol â buddiannau mewn is-gwmnïau, cwmnïau cysylltiedig a chyd-fentrau baratoi cyfrifon grŵp yn ogystal â chyfrifon endid sengl. Mae'r cyfrifon hyn yn cydgrynhoi canlyniadau gweithredu a balansau Cydbwyllgor Bargen Ddinesig P-RC a'i is-gwmni, Compound Semi-Conductor Foundry Ltd (CSC Foundry Ltd).

Ymgorfforwyd ail Gerbyd Pwrpas Arbennig, CCR Energy Limited, 3 Mawrth 2022 a bydd yn cael ei ddefnyddio i weinyddu prynu, adfer a datblygu Gorsaf Bŵer Aberddawan, sydd yn y broses o gael ei brynu, yn amodol ar drosglwyddo rhai trwyddedau amgylcheddol. Mae'r cwmni hwn yn segur ar hyn o bryd, heb unrhyw drafodion ariannol ond disgwylir iddo fod ar waith yn ystod 2022/23 a bydd yn cael ei drin fel is-gwmni i Gyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac yn cael ei ymgorffori i'r cyfrifon grŵp hyn yn yr un modd ag y gwneir â balansau CSC Foundry Ltd.

## <u>Polisïau Cyfrifyddu sy'n Berthnasol i Gyfrifon Grŵp</u>

### Sail Gysoni

Paratowyd y cyfrifon grŵp ar sail cysoniad llawn o drafodion a balansau ariannol Cydbwyllgor Bargen Ddinesig P-RCa CSC Foundry Ltd. Dilëwyd trafodion a balansau rhwng grwpiau rhwng y Cydbwyllgor a'i is-gwmni yn llawn.

### Polisïau cyfrifyddu

Cwmni preifat yw CSC Foundry Ltd, wedi'i gyfyngu gan gyfranddaliadau, wedi'i leoli yng Nghymru a Lloegr, rhif cofrestru 10888081. Y swyddfa gofrestredig yw Canolfan Arloesi a Thechnoleg Tredomen, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, Cymru CF82 7FN. Cafodd ei gyfrifon eu paratoi yn unol â darpariaethau FRS102 Adran 1A, endidau bach.

Paratoir y Cyfrifon Grŵp yn unol â'r Cod, gan ddefnyddio polisïau cyfrifyddu unffurf ar gyfer trafodion o'r un fath a digwyddiadau eraill o dan amgylchiadau tebyg. Y polisïau i'w cymhwyso yw'r rhai a nodir ar gyfer datganiadau ariannol endidau sengl yr awdurdod sy'n adrodd, sy'n gofyn am ail-alinio'r polisïau a gymhwysir gan aelodau grwpiau eraill lle y maent yn cael effaith sylweddol wahanol.

Felly, paratoir y datganiadau ariannol yn y cyfrifon grŵp yn unol â'r polisïau a nodir yn y Polisïau Datganiad Cyfrifyddu.

## Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Grŵp 2021/22

| 2020/21 £ | | Nodiadau | 2021/22 £ |
|---|---|---|---|
| | **Cost Gwasanaethau** | | |
| 1,198,815 | Costau staff | | 1,765,951 |
| 15,434 | Safle | 23 | 15,965 |
| 3,663 | Trafnidiaeth | 24 | 889 |
| 2,206,806 | Cyflenwadau a Gwasanaethau | 25 | 3,087,803 |
| 1,086,000 | Gwariant Refeniw a Ariennir Gan Gyfalaf Dan Statud | | 400,000 |
| 207,427 | Gwasanaethau Cymorth | 26 | 366,164 |
| 0 | Costau Cyfalaf | | 412,773 |
| **4,718,145** | **Gwariant Gweithredu** | | **6,049,545** |
| (2,190,817) | Cyfraniadau gan Awdurdodau Lleol | 28/29 | (1,160,058) |
| (2,183,693) | Incwm o Grantiau | 28 | (4,562,130) |
| (2,911,253) | Ffioedd a Chostau | 28 | (2,830,523) |
| **(7,285,763)** | **Incwm Gweithredu** | | **(8,552,711)** |
| **(2,567,618)** | **Cost Net Gwasanaethau** | | **(2,503,166)** |
| (156,682) | Llog ac Incwm Buddsoddi | 34 | (167,764) |
| 7,550,589 | Newid yng Ngwerth Teg Eiddo Buddsoddi | 35 | 111,699 |
| **7,393,907** | **Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** | | **(56,065)** |
| (4,474,938) | Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf Cydnabyddedig | 39 | (4,370,706) |
| (920,313) | Treth Gorfforaeth | 27 | 488,248 |
| **(5,395,251)** | **Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol** | | **(3,882,458)** |
| | | | |
| **(568,962)** | **(Gwarged) / Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau** | | **(6,441,689)** |
| 0 | Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | 0 |
| **(568,962)** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **(6,441,689)** |

## Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn Grŵp 2021/22

| Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn | Balans y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol £ | Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig y Gronfa Gyffredinol £ | Cronfa Derbynebau Cyfalaf Defnyddiadwy £ | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £ | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf £ | Cyfrif Absenoldebau Cronedig £ | Cyfalaf Cyfrannau £ | Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £ | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2021 a Gariwyd Ymlaen** | **9,890,767** | **41,872** | **0** | **9,932,639** | **34,054,226** | **(24,409)** | **10** | **34,029,827** | **43,962,467** |
| **<u>Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn 2021/22</u>** | | | | | | | | | |
| Gwarged / (Diffyg) ar y Cyfrif Incwm a Gwariant | 6,441,689 | 0 | 0 | 6,441,689 | 0 | 0 | 0 | **0** | **6,441,689** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **6,441,689** | **0** | **0** | **6,441,689** | **0** | **0** | **0** | **0** | **6,441,689** |
| Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu | (3,825,044) | 0 | 0 | (3,825,044) | 3,846,234 | (21,190) | 0 | **3,825,044** | **0** |
| Cyfalaf Cyfrannau a Elwir i Fyny | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig** | **2,616,645** | **0** | **0** | **2,616,645** | **3,846,234** | **(21,190)** | **0** | **3,825,044** | **6,441,689** |
| Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn | **(423,469)** | **423,469** | **1,350,000** | **1,350,000** | **(1,350,000)** | **0** | **0** | **(1,350,000)** | **0** |
| **Cynnydd/(Gostyngiad yn y Flwyddyn)** | **2,193,176** | **423,469** | **1,350,000** | **3,966,645** | **2,496,234** | **(21,190)** | **0** | **2,475,044** | **6,441,689** |
| | | | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **12,083,943** | **465,341** | **1,350,000** | **13,899,285** | **36,550,460** | **(45,599)** | **10** | **36,504,871** | **50,404,156** |

| Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn | Balans y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol £ | Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig y Gronfa Gyffredinol £ | Cronfeydd Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn Defnyddiadwy £ | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £ | Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £ | Cyfrif Absenoldebau Cronedig £ | Cyfalaf Cyfrannau £ | Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £ | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2020 a Ddygwyd Ymlaen** | **6,263,618** | **0** | **0** | **6,263,618** | **37,129,877** | **0** | **10** | **37,129,887** | **43,393,505** |
| **<u>Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn 2020/21</u>** | | | | | | | | | |
| Gwarged / (Diffyg) ar y Cyfrif Incwm a Gwariant | 568,961 | **0** | **0** | 568,961 | 0 | 0 | 0 | **0** | **568,961** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **568,961** | **0** | **0** | **568,961** | **0** | **0** | **0** | **0** | **568,961** |
| Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu | 3,100,060 | **0** | **0** | 3,100,060 | (3,075,651) | (24,409) | 0 | **(3,100,060)** | **0** |
| Cyfalaf Cyfrannau a Elwir i Fyny | 0 | **0** | **0** | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig** | **3,669,021** | **0** | **0** | **3,669,021** | **(3,075,651)** | **(24,409)** | **0** | **(3,100,060)** | **568,962** |
| Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn | **(41,872)** | **41,872** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cynnydd/(Gostyngiad yn y Flwyddyn)** | **3,627,149** | **41,872** | **0** | **3,669,021** | **(3,075,651)** | **(24,409)** | **0** | **(3,100,060)** | **568,962** |
| | | | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **9,890,767** | **41,872** | **0** | **9,932,639** | **34,054,226** | **(24,409)** | **10** | **34,029,827** | **43,962,467** |

## Mantolen Grŵp ar 31 Mawrth 2022

| 31 Mawrth 2021 £ | | Nodiadau | 31 Mawrth 2022 £ |
|---|---|---|---|
| 29,000,000 | Eiddo Buddsoddi | | 28,950,000 |
| 2,474,938 | Eiddo, Peiriannau ac Offer - Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu | | 1,286,236 |
| 0 | Eiddo, Peiriannau ac Offer | | 2,476,635 |
| 2,000,000 | Buddsoddiadau Hirdymor | | 2,000,000 |
| 12,985,451 | Dyledwyr Hirdymor | 31 | 16,278,567 |
| **46,460,389** | **Asedau Hirdymor** | | **50,991,438** |
| 6,642,064 | Dyledwyr Byrdymor | 31 | 6,966,556 |
| 1,318,423 | Ased Treth Ohiriedig | 27 | 1,339,646 |
| 51,356,967 | Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod | 33 | 68,734,461 |
| **59,317,454** | **Asedau Cyfredol** | | **77,040,663** |
| (15,149,071) | Credydwyr Byrdymor | 36 | (49,830,862) |
| (24,409) | Cyfrif Absenoldebau Cronedig | 32 | (45,599) |
| **(15,173,480)** | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | **(49,876,461)** |
| (44,680,788) | Credydwyr Hirdymor | 36 | (25,280,904) |
| (1,961,109) | Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau | 27 | (2,470,580) |
| **(46,641,897)** | **Rhwymedigaethau Hirdymor** | | **(27,751,484)** |
| **43,962,466** | **Asedau Net** | | **50,404,156** |
| 253,952 | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | 37 | 2,027,421 |
| 10 | Cyfalaf Cyfrannau a Elwir i Fyny | | 10 |
| 9,678,677 | Cyfrif Elw a Cholled | 37 | 11,871,864 |
| 34,054,236 | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 39 | 36,550,460 |
| (24,409) | Cyfrif Absenoldebau Cronedig | 32 | (45,599) |
| **43,962,466** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn** | | **50,404,156** |

# Datganiad Llif Arian Parod Grŵp 2021/22

| 31 Mawrth 2021 £ | | Nodiadau | 31 Mawrth 2022 £ |
|---|---|---|---|
| (568,961) | Gwarged / (Diffyg) net o ran Darparu Gwasanaethau | | (6,441,689) |
| 2,428,194 | Addasu gwarged neu ddiffyg net o ran darparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn rhai arian parod | 38 | 7,033,884 |
| **1,859,233** | **Llifoedd arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **592,195** |
| 6,633,510 | Gweithgareddau buddsoddi | 38 | 4,891,159 |
| (12,250,000) | Gweithgareddau ariannu | 38 | (22,860,847) |
| **(3,757,257)** | **(Cynnydd) / gostyngiad net mewn arian parod a chywerthoedd arian parod** | | **(17,377,494)** |
| (47,599,710) | Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd | | (51,356,967) |
| **(51,356,967)** | **Balans arian parod ar 31 Mawrth** | | **(68,734,460)** |

## Nodiadau i Ddatganiadau Ariannol Craidd Grŵp

### 21. Taliadau Cydnabyddiaeth

Nid yw cyfrifon is-gwmni CSC Foundry yn cynnwys unrhyw dâl uniongyrchol i unrhyw swyddogion. Mae nodyn 1 yn cwmpasu costau taliadau i weithwyr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

### 22. Costau Safleoedd

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi gwariant ar Safleoedd am y flwyddyn.

| 2020/21 £ | Costau Safleoedd | Cydbwyllgor £ | CSC Foundry Ltd £ | 2021/22 £ |
|---|---|---|---|---|
| 15,120 | Rhenti | 15,000 | 0 | 15,000 |
| 314 | Gwariant arall sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 965 | 0 | 965 |
| **15,434** | **Cyfanswm** | **15,965** | **0** | **15,965** |

### 23. Costau Trafnidiaeth

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi gwariant ar Drafnidiaeth am y flwyddyn.

| 2020/21 £ | Costau Trafnidiaeth | Cydbwyllgor £ | CSC Foundry Ltd £ | 2021/22 £ |
|---|---|---|---|---|
| 2,440 | Lwfansau Car | (84) | 0 | (84) |
| 1,223 | Treuliau Teithio | 973 | 0 | 973 |
| **3,663** | **Cyfanswm** | **889** | **0** | **889** |

### 24. Cyflenwadau a Gwasanaethau

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi gwariant ar Gyflenwadau a Gwasanaethau am y flwyddyn.

| 2020/21 £ | Cyflenwadau a Gwasanaethau | Cydbwyllgor £ | CSC Foundry Ltd £ | 2021/22 £ |
|---|---|---|---|---|
| 36,466 | TGCh, Ffonau, Argraffu a Meddalwedd | 25,992 | 0 | 25,992 |
| 22,607 | Llogi Ystafelloedd Cyfarfod a Chostau Cyfarfodydd Eraill | 29,409 | 0 | 29,409 |
| 136,686 | Marchnata, Brandio a Chyfathrebiadau | 104,732 | 0 | 104,732 |
| 1,659,505 | Datblygu a Chefnogi Rhaglenni* | 1,847,917 | 0 | 1,847,917 |
| 150,000 | Grantiau Prosiectau Refeniw** | 341,208 | 0 | 341,208 |
| 201,543 | Costau Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill | 715,841 | 22,705 | 738,546 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2,206,807** | **Cyfanswm** | **3,065,098** | **22,705** | **3,087,803** |

*Mae Datblygu a Chefnogi Rhaglenni yn ymwneud ag ystod o gyngor a chymorth proffesiynol sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod pob prosiect a ddygir ymlaen yn gadarn ac wedi mynd trwy'r lefel her a gwirio annibynnol angenrheidiol i gydymffurfio â gofynion y Fframwaith Sicrwydd. Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriaeth gyfreithiol, diwydrwydd dyladwy, profi'r farchnad a chostau yr aethpwyd iddynt wrth baratoi Achosion Busnes sy'n cydymffurfio â Thrysorlys EM.

| **Grantiau Prosiectau Refeniw | 2021/22<br>£ |
|---|---|
| FinTech Wales | 150,000 |
| Cyber Masters - Prifysgol Caerdydd | 178,500 |
| Media.Cymru | 12,708 |
| **Cyfanswm** | **341,208** |

## 25. Costau Gwasanaethau Cymorth

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi gwariant ar Wasanaethau Cymorth am y flwyddyn.

| 2020/21<br>£ | Costau Gwasanaethau Cymorth | Cydbwyllgor<br>£ | CSC Foundry Ltd<br>£ | 2021/22<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| 8,570 | Gwasanaethau Pobl AD | 18,456 | 0 | 18,456 |
| 83,267 | Cymorth Cyfrifeg | 130,212 | 15,000 | 145,212 |
| 4,857 | Trysorlys, Archwilio Mewnol ac Yswiriant | 4,857 | 0 | 4,857 |
| 60,540 | Cymorth Cyfreithiol a Llywodraethiant | 121,060 | 0 | 121,060 |
| 13,534 | TGCh, Gwybodaeth a Llywodraethiant | 20,231 | 0 | 20,231 |
| 0 | Gwasanaethau Cyfieithu | 8,270 | 0 | 8,270 |
| 34,382 | Archwiliad Allanol (gan gynnwys Cyngor Technegol) | 44,073 | 3,800 | 47,873 |
| 2,277 | Cymorth arall | 205 | 0 | 205 |
| **207,427** | **Cyfanswm** | **347,364** | **18,800** | **366,164** |

## 26. Treth Gorfforaeth a Ohiriwyd

Cydnabyddir treth a ohiriwyd o ran gwahaniaethau ar amseriad sydd wedi deillio, ond heb eu gwrthdroi, o ddyddiad y fantolen.

Mae gwahaniaethau amseru'n deillio o gynnwys incwm a threuliau mewn asesiadau treth mewn cyfnodau gwahanol i'r rhai y cydnabyddir hwy ynddynt mewn datganiadau ariannol. Caiff Treth Ohiriedig ei mesur gan ddefnyddio cyfraddau a chyfreithiau treth a gafodd eu deddfu neu eu deddfu'n barhaol erbyn diwedd y cyfnod ac y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i wrthdroi'r gwahaniaeth o ran amseru.

Cydnabyddir colledion treth na chafodd eu rhyddhau ac asedau treth gohiriedig eraill ond i'r graddau ei bod yn debygol y cânt eu hadfer yn erbyn gwrthdroi rhwymedigaethau treth ohiriedig neu elwon trethadwy eraill yn y dyfodol.

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi a chysoni'r taliad treth o £488,288 a gydnabyddir ym mlwyddyn ariannol 2021/22 i symudiad ar yr atebolrwydd treth ac ased treth gohiriedig.

| Symudiad 2021/22 | Darpariaeth Atebolrwydd Treth £ | Ased Dreth Ohiriedig £ | Symudiad |
|---|---|---|---|
| Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2021 | (1,961,109) | 1,318,423 | |
| **Symud:** | | | |
| Darpariaeth Dreth Ychwanegol | (509,470) | 0 | (509,470) |
| Treth Gohiriedig | 0 | 21,223 | 21,223 |
| **Balans Clo ar 31 Mawrth 2022** | **(2,470,579)** | **1,339,646** | **(488,247)** |

| Blwyddyn flaenorol er mwyn Cymharu | Darpariaeth ar gyfer Atebolrwydd Treth £ | Ased Dreth Ohiriedig £ | Symudiad |
|---|---|---|---|
| Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2020 | (1,562,998) | 0 | |
| **Symud:** | | | |
| Darpariaeth Dreth Ychwanegol | (398,111) | 0 | (398,111) |
| Treth Gohiriedig | 0 | 1,318,423 | 1,318,423 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **(1,961,109)** | **1,318,423** | **920,312** |

## 27. Incwm

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi Incwm y cyfrifwyd amdano yn ystod y flwyddyn.

| 2020/21 £ | Incwm | Cydbwyllgor £ | CSC Foundry Ltd £ | 2021/22 £ |
|---|---|---|---|---|
| (2,190,817) | Cyfraniadau gan Awdurdodau Lleol | (1,160,058) | 0 | (1,160,058) |
| (2,183,693) | Ffioedd a Chostau | (94,556) | (2,735,967) | (2,830,523) |
| (2,911,253) | Incwm o Grantiau | (4,562,130) | | (4,562,130) |
| **(7,285,763)** | **Cyfanswm** | **(5,816,744)** | **(2,735,967)** | **(8,552,711)** |

CSC Foundry Ltd. Mae incwm Ffioedd a Chostau'n ymwneud â thaliadau rhent ar ei Eiddo Buddsoddi.

## 28. Partïon Cysylltiedig

Mae trafodion y Cyd-bwyllgor sy'n ymwneud â Phartïon wedi'u nodi yn nodyn 10 uchod.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, roedd gan CSC Foundry Ltd 10 o gyfarwyddwyr, pob un ohonynt yn cynrychioli Awdurdod Lleol sy'n rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-

Ranbarth Caerdydd. Mae CSC Foundry Ltd wedi cael benthyciad di-log o £35,768,359 (2021 £37,118,359) drwy gyfraniadau awdurdodau partner sy'n ymwneud â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r Cwmni hefyd yn defnyddio gwasanaethau Rheolwr Prosiect o Swyddfa Rheoli Bargen y Ddinas ac yn defnyddio Cyngor Sir Fynwy i gynorthwyo gyda'i weinyddiaeth ariannol o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth.

Roedd taliadau am wasanaethau i Gyngor Sir Caerdydd yn ystod y cyfnod yn dod i £14,552 (2021 £38,168). Roedd y taliadau i Gyngor Sir Fynwy yn ystod y cyfnod yn dod i £15,000 (2021 £15,000).

## 29. Costau Archwilio Allanol

| 2020/21<br>£ | Costau Archwilio Allanol | Cydbwyllgor<br>£ | CSC Foundry Ltd<br>£ | 2021/22<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| 24,500 | Archwiliad Ariannol y Cydbwyllgor | 29,043 | 0 | 29,043 |
| 20,748 | Archwiliad Perfformiad y Cydbwyllgor | 21,515 | 0 | 21,515 |
| 3,500 | Archwiliad o'r Cyfrifon | 0 | 3,800 | 3,800 |
| **48,748** | **Cyfanswm** | **50,558** | **3,800** | **54,358** |

Mae Nodyn 30 yn cofnodi'r Ffi Archwilio a gynigiwyd ar gyfer archwiliad y flwyddyn yn unol â'r Cynlluniau Archwilio a gyflwynwyd i'r Cabinet Rhanbarthol sy'n wahanol i'r rhai a ddangosir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Nodyn 25 uchod sy'n dangos costau gwirioneddol yn ystod y flwyddyn, sy'n cynnwys croniadau ar gyfer costau a gynlluniwyd ynghyd â gwahaniaethau rhwng costau a gynlluniwyd a chostau gwirioneddol. Codir costau terfynol archwiliad 2021/22 ar ôl cwblhau'r gwaith archwilio.

## 30. Dyledwyr

| Cydbwyllgor<br>£ | CSC Foundry Ltd<br>£ | Cyfanswm 31 Mawrth 2021<br>£ | Dyledwyr | Cydbwyllgor<br>£ | CSC Foundry Ltd<br>£ | Cyfanswm 31 Mawrth 2022<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Byrdymor:** | | | |
| 0 | 0 | 0 | Cyrff y Llywodraeth Ganolog | 249,509 | 0 | 249,509 |
| 4,800,243 | 0 | 4,800,243 | Awdurdodau Lleol eraill | 1,548,465 | 0 | 1,548,465 |
| 1,876,964 | (35,143) | 1,841,821 | Endidau ac Unigolion Eraill | 5,159,104 | 9,478 | 5,168,582 |
| **6,677,207** | **(35,143)** | **6,642,064** | **Dyledwyr Byrdymor** | **6,957,078** | **9,267** | **6,966,556** |
| | | | **Hirdymor:** | | | |
| 77,015 | 12,908,436 | 12,985,451 | Endidau ac Unigolion Eraill | 4,224,375 | 12,054,192 | 16,278,567 |
| **77,015** | **12,908,436** | **12,985,451** | **Dyledwyr Hirdymor** | **4,224,375** | **12,054,192** | **16,278,567** |
| | | | | | | |
| **6,754,222** | **12,873,293** | **19,627,515** | **Cyfanswm Dyledwyr** | **11,181,453** | **12,063,670** | **23,245,123** |

## 31. Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Nid yw cyfrifon is-gwmni CSC Foundry yn cynnwys unrhyw dâl uniongyrchol i unrhyw swyddogion. Mae Nodyn 16 yn cwmpasu'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig ar gyfer gweithwyr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

## 32. Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod

Nid yw'r Cydbwyllgor yn meddu ar ei gyfrif banc ei hun felly caiff yr holl incwm a gwariant eu rheoli gan Gyngor Caerdydd yn ei rôl fel y Corff Atebol, trwy ei falans banc ei hun. Felly, mae'r swm o £65,300,564 a ddangosir fel arian parod yn y fantolen yn cynrychioli'r arian parod rhyng-awdurdod a ddelir gan y Corff Atebol ar ran y Cydbwyllgor ynghyd â balansau a ddelir gan CSC Foundry Ltd.

| 31 Mawrth 2021<br>£ | Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod | Cydbwyllgor<br>£ | CSC Foundry Ltd<br>£ | Cyfanswm 31 Mawrth 2022<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| 3,553,370 | Banc | 0 | 3,433,897 | 3,433,897 |
| 47,803,597 | Arian Parod Rhyng-gwmnïol Cyngor Caerdydd | 65,300,564 | 0 | 65,300,564 |
| **51,356,967** | **Cyfanswm** | **65,300,564** | **3,433,897** | **68,734,461** |

## 33. Offerynnau Ariannol

Yn ogystal ag Asedau Ariannol y Cydbwyllgor, mae CSC Foundry Ltd yn dal Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod o £3,433,897 (2020-21: £3,553,370).

Caiff y benthyciad rhwng y Cydbwyllgor a CSC Foundry Ltd ei niwtraleiddio wrth ei gydgrynhoi ac mae'n peidio â bod yn Offeryn Ariannol yn y Cyfrifon Grŵp.

Enillion/Colledion Offerynnau Ariannol

Enillwyd llog net o £30,366 (2020/21: £144,810) ar falansau a ddelir yn unol â pholisïau pob sefydliad.

Natur a Graddau Risgiau sy'n deillio o Offerynnau Ariannol:

Rheolir Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod gan Gyngor Caerdydd, gan CSC Foundry Ltd a chan Gyngor Sir Fynwy fel yr Awdurdod lletyol ar gyfer prosiect CSC Foundry Ltd yn unol â Strategaeth Rheoli Trysorlys pob sefydliad. Ni chydnabyddir unrhyw ddarpariaethau neu golledion.

## 34. Eiddo Buddsoddi

Mae'r eiddo Buddsoddi a ddelir ar ddyddiad y fantolen wedi'i brisio ar sail Gwerth Teg, a ddiffinnir fel: Eiddo buddsoddi: wedi'i brisio i werth teg (SAA 102 adran 16 neu SAARh 13) gan dybio y byddai'r eiddo'n cael ei werthu yn amodol ar unrhyw brydlesi presennol.

Prisiwyd yr eiddo ar werth teg ar ddyddiad y fantolen, gan y priswyr allanol annibynnol, Jones Lang LaSalle Ltd. Roedd y prisiad yn amodol ar y denantiaeth bresennol ar ddyddiad y fantolen.

Mae Cod CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i enillion a cholledion ailbrisio gael eu trosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol i'r cyfrif addasiadau cyfalaf a'u hadrodd yn y MiRS.

## 35. Credydwyr

| Cydbwyllgor £ | CSC Foundry Ltd £ | Cyfanswm 31 Mawrth 2021 £ | Credydwyr | Cydbwyllgor £ | CSC Foundry Ltd £ | Cyfanswm 31 Mawrth 2022 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Byrdymor:** | | | |
| 10,131,601 | 0 | 10,131,601 | Cyrff y Llywodraeth Ganolog | 43,549,870 | 0 | 43,549,870 |
| 94,303 | 0 | 94,303 | Awdurdodau Lleol eraill | 34,961 | 0 | 34,961 |
| 3,061,303 | 1,861,864 | 4,923,167 | Endidau ac Unigolion Eraill | 2,592,659 | 3,653,372 | 6,246,031 |
| **13,287,207** | **1,861,864** | **15,149,071** | **Credydwyr Byrdymor** | **46,177,490** | **3,653,372** | **49,830,862** |
| | | | **Hirdymor:** | | | |
| 41,836,518 | 0 | 41,836,518 | Cyrff y Llywodraeth Ganolog | 22,578,935 | 0 | 22,578,935 |
| 0 | 2,844,270 | 2,844,270 | Endidau ac Unigolion Eraill | 0 | 2,701,969 | 2,701,969 |
| **41,836,518** | **2,844,270** | **44,680,788** | Credydwyr Hirdymor | **22,578,935** | **2,701,969** | **25,280,904** |
| | | | | | | |
| **55,123,725** | **4,706,134** | **59,829,859** | **Cyfanswm Credydwyr** | **68,756,425** | **6,355,341** | **75,111,766** |

## 36. Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy

| Cronfa Gyffredinol 2020/21 £ | Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig 2020/21 £ | CSC Foundry Ltd P&L 2020/21 £ | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy 2020/21 £ | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy 2020/21 £ | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | Cronfa Gyffredinol 2021/22 £ | Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig 2021/22 £ | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy 2021/22 £ | CSC Foundry Ltd P&L 2021/22 £ | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy 2021/22 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **212,080** | **0** | **6,051,538** | **0** | **6,263,618** | **Balans ar 1 Ebrill** | **212,080** | **41,872** | **0** | **9,678,687** | **9,932,639** |
| | | | | | **Symudiadau yn ystod y flwyddyn:** | | | | | |
| 4,492,401 | 0 | (3,923,440) | 0 | **568,961** | Gwarged / (Diffyg) o ran Darparu Gwasanaethau | 4,360,211 | 0 | 0 | 2,081,478 | **6,441,689** |
| (4,474,938) | 0 | 7,550,589 | 0 | **3,075,651** | Ariannu Gwariant, Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | (3,936,742) | 0 | 0 | 111,699 | **(3,825,043)** |
| 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | Trosglwyddo o Gyfrif Addasu Cyfalaf | 0 | 0 | 1,350,000 | 0 | **1,350,000** |
| 24,409 | 0 | 0 | 0 | **24,409** | Ariannu Gwariant, Cyfrif Absenoldebau Cronedig | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| (41,872) | 41,872 | 0 | 0 | **0** | Trosglwyddo o’r Gronfa Gyffredinol I’r Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig | (423,469) | 423,469 | 0 | 0 | **0** |
| **212,080** | **41,872** | **9,678,687** | **0** | **9,932,639** | **Balans ar 31 Mawrth** | **212,080** | **465,341** | **1,350,000** | **11,871,864** | **13,899,285** |

## 37. Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian Parod

| 2020/21 £ | | 2021/22 £ |
|---|---|---|
| 3,000,358 | Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Credydwyr | (812,348) |
| (8,795,448) | (Cynnydd) / Gostyngiad mewn Dyledwyr | 2,186,828 |
| 0 | Dibrisiant | 412,773 |
| 7,550,589 | Newid yng Ngwerth Teg Eiddo Buddsoddi | 111,699 |
| (2,000,000) | Grantiau / cyfraniadau cyfalaf a gydnabyddir yn Incwm a Gwariant | (4,370,706) |
| (2,183,693) | Grantiau / cyfraniadau refeniw a gydnabyddir yn Incwm a Gwariant | (4,562,130) |
| **(2,428,194)** | **Addasiadau i warged neu ddiffyg net o ran darparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod** | **(7,033,884)** |

| 2020/21 £ | Gweithgareddau Buddsoddi | 2021/22 £ |
|---|---|---|
| 2,000,000 | Buddsoddiadau Hirdymor | 0 |
| 2,536,638 | Prynu Eiddo, Peiriannau ac Offer | 1,762,406 |
| 2,096,872 | Dyledwyr Hirdymor | 3,128,753 |
| **6,633,510** | **Addasiadau i warged neu ddiffyg net o ran darparu gwasanaethau ar gyfer gweithgareddau buddsoddi** | **4,891,159** |

| 2020/21 £ | | 2021/22 £ |
|---|---|---|
| (10,000,000) | Grant Trysorlys EM a dderbyniwyd | (22,000,000) |
| (250,000) | Grant Trysorlys EM a dderbyniwyd | (200,000) |
| 0 | Grant Trysorlys EM a dderbyniwyd | (410,846) |
| 0 | Grant Trysorlys EM a dderbyniwyd | (250,001) |
| (2,000,000) | Cyfraniad cyfalaf a dderbyniwyd | 0 |
| **(12,250,000)** | **Addasiadau i warged neu ddiffyg net o ran darparu gwasanaethau ar gyfer gweithgareddau ariannu** | **(22,860,847)** |

## 38. Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn adlewyrchu gwahaniaethau rhwng arferion cyfrifyddu arferol a gofynion statudol. Mae hyn yn cynnwys trin dibrisiant, enillion neu golledion ar werth buddsoddiadau ac fe'i credydir gyda'r symiau a ddefnyddir fel cyllid ar gyfer gwariant cyfalaf.

| 2020/21 £ | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 2021/22 £ |
|---|---|---|
| **37,129,877** | **Balans ar 01 Ebrill** | **34,054,227** |
| | Ariannu cyfalaf a gymhwyswyd yn ystod y flwyddyn: | |
| 4,474,938 | Grantiau a chyfraniadau | 4,370,705 |
| (7,550,588) | Ailbrisio Eiddo Buddsoddi | (111,699) |
| | Adenillion ar Fuddsoddiad | (1,350,000) |
| 0 | Addasiad Dibrisiant | (412,773) |
| **34,054,227** | **Balans ar 31 Mawrth** | **36,550,460** |

## Geirfa o Dermau Cyfrifeg Llywodraeth Leol Perthnasol

Rhagdybir gwybodaeth am derminoleg cyfrifeg sylfaenol. Fodd bynnag, mae yna dermau arbenigol penodol sy'n ymwneud â chyllid llywodraeth leol, a disgrifir y rhain isod:

**Sail Gronnol**

Yr egwyddor gronnol yw bod incwm yn cael ei gofnodi pan gaiff ei ennill yn hytrach na phan gaiff ei dderbyn, a bod treuliau'n cael eu cofnodi pan ddaw nwyddau neu wasanaethau i law yn hytrach na phan delir amdanynt.

**Ased Yn Cael Ei Adeiladu**
Ased nad yw'n gyflawn eto.

**Benthyca**
Benthyciadau a gymerwyd i dalu am wariant cyfalaf neu am reoli'n ddarbodus faterion ariannol y Cyngor.

**Cyfrif Addasiadau Cyfalaf**
Mae'r Cyfrif yn cronni (ar yr ochr ddebyd) cost hanesyddol asedau anghyfredol wrth iddynt gael eu heffeithio gan ddibrisiant a diffygion neu eu diystyru wrth eu gwaredu. Mae'n cronni (ar yr ochr gredyd) yr adnoddau a neilltuwyd i ariannu gwariant cyfalaf. Mae'r un broses yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd ond yn gyfalaf drwy ddiffiniad statudol (gwariant refeniw a ariennir gan gyfalaf dan statud). Mae'r gweddill ar y cyfrif felly yn cynrychioli gwahaniaethau amseru rhwng swm cost hanesyddol asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd, a'r swm a ariannwyd yn unol â gofynion statudol.

**Gwariant Cyfalaf**
Mae gwariant cyfalaf yn talu am welliannau i asedau hen a newydd a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau yn ogystal ag eitemau eraill a bennir gan Reoleiddio. Mae adnoddau cyfalaf yn brin, yn gostus ac mae ganddynt hefyd oblygiadau refeniw hirdymor dros nifer o flynyddoedd a hyd yn oed genedlaethau pan ariennir gwariant cyfalaf drwy fenthyca. Felly gofyniad y Cod Darbodus yw sicrhau bod yr hyn a godir fel Gwariant Cyfalaf yn Ddarbodus, yn Gynaliadwy ac yn Fforddiadwy.

Rhoddir diffiniad statudol gwariant cyfalaf yn Neddf Llywodraeth Leol 2003, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) 2003 a diwygiedig yn 2004. Mae statud yn dibynnu ar fesur cyfrifyddu cost Safon Cyfrifydd Rhyngwladol (SCRh/IAS) 16 i benderfynu a yw gwariant yn gymwys i gael ei gyfalafu neu a ddylai gael ei drin fel gwariant refeniw. Yn allweddol i'r hyn sy'n gymwys i gael ei ystyried yn wariant cyfalaf mae'r geiriau hyn yn SCRh 16 – 'Costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod ag ased penodol i gyflwr gweithiol at y diben y'i bwriadwyd'.

**Swm Cario**
Gwerth un ai ased neu rwymedigaeth a gofnodwyd ar Fantolen.

**Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod**

Symiau o arian sydd ar gael i'w defnyddio ar unwaith ac adneuon â sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd o lai na 24 awr.

**Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA)**

CIPFA yw'r prif gorff cyfrifyddu proffesiynol sy'n penderfynu ar safonau cyfrifyddu a safonau adrodd i'w dilyn gan Lywodraeth Leol.

**Credydwyr**
Symiau sy'n ddyledus gan y Cydbwyllgor am waith a wnaed, nwyddau a gafwyd neu wasanaethau a roddwyd, nas talwyd amdanynt ar ddyddiad y fantolen.

**Gwerth Cyfredol**
Mae gwerth cyfredol ased yn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd sydd ohoni ar gyfer y gwasanaeth neu swyddogaeth y mae'r ased yn ei gefnogi ar y dyddiad adrodd.

**Dyledwyr**
Symiau o arian sy'n ddyledus i'r Cydbwyllgor nas talwyd ar ddyddiad y Fantolen.

**Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig**
Symiau a neilltuir i dalu am wariant penodol, hysbys neu a ragwelir yn y dyfodol.

**Archwilio Allanol**
Archwiliad annibynnol o weithgareddau a chyfrifon Awdurdodau Lleol i sicrhau y paratowyd cyfrifon yn unol â gofynion deddfwriaethol ac arferion priodol a sicrhau bod y Cydbwyllgor wedi gwneud trefniadau cywir i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau.

**Gwerth Teg**
Gwerth Teg yw'r pris fyddid yn ei gael o werthu ased neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranogwyr yn y farchnad ar y dyddiad mesur.

**Offerynnau Ariannol**
Mae offeryn ariannol yn unrhyw gontract sy'n peri ased ariannol un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term 'offeryn ariannol' yn cwmpasu asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol ac mae'n cynnwys yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol symlaf fel symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau taladwy drwy fasnach a'r rhai cymhlethaf fel deilliadau a deilliadau mewnblanedig.

**Amhariad**
Gostyngiad yng ngwerth ased islaw ei werth a ddygwyd ymlaen yn y Fantolen. Ymhlith yr enghreifftiau o ffactorau a allai achosi gostyngiad mewn gwerth mae gostyngiadau cyffredinol mewn prisiau, gostyngiad sylweddol yng ngwerth marchnad neu adenilladwyedd ased a thystiolaeth o segurdod neu ddifrod ffisegol i'r ased.

**Buddsoddiadau**
Prynu asedau ariannol er mwyn cynnal balans arian parod dros dro, cael incwm a/neu wneud elw cyfalaf yn y dyfodol, ond y prif ystyriaeth yw diogelwch y swm cychwynnol a fuddsoddwyd.

**Rhwymedigaethau**
Symiau sy'n ddyledus i unigolion neu sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu yn y dyfodol. Mae rhwymedigaethau cyfredol fel arfer yn daladwy ymhen blwyddyn o ddyddiad y

Fantolen.

**Addasiadau Cyfnod Blaenorol**
Mae’r rhain yn addasiadau perthnasol a gymhwysir i gyfnod blaenorol sy’n codi o newidiadau’n unol â pholisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwallau sylfaenol.

**Eiddo, Peiriannau ac Offer (EPO)**
Asedau diriaethol (h.y. asedau sydd â sylwedd ffisegol) a ddelir i’w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau a gwasanaethau, i’w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol, y disgwylir iddynt gael eu defnyddio am fwy nag un flwyddyn.

**Darpariaethau**
Symiau a neilltuwyd o ran rhwymedigaethau neu golledion sy’n debygol neu’n sicr o ddigwydd, ond nad yw’r union swm na’r dyddiad setlo’n sicr.

**Partïon Cysylltiedig**
Partïon cysylltiedig yw’r Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol eraill, cyrff archebu a threthu, is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig, Aelodau Etholedig, yr holl uwch swyddogion o lefel Cyfarwyddwr ac uwchlaw hynny. O ran unigolion a nodwyd fel partïon cysylltiedig, rhagdybir bod y canlynol hefyd yn bartïon cysylltiedig:

- aelodau o’r teulu agos, neu o’r un aelwyd; a
- phartneriaethau, cwmnïau, ymddiriedolaethau neu endidau eraill lle mae’r unigolyn, neu aelod o’i deulu agos ar yr un aelwyd, â buddiant rheoli.

**Cronfeydd Wrth Gefn**
Symiau a neilltuir i’w defnyddio yn y dyfodol. Gall cronfeydd wrth gefn fod at ddiben penodol lle cyfeirir atynt fel ‘cronfeydd wrth gefn clustnodedig’ neu gallant fod yn gronfeydd cyffredinol wrth gefn (neu’n falansau) y mae’n rhaid i bob sefydliad eu cynnal er mwyn bod yn ddarbodus.

**Gwariant Refeniw a Ariennir gan Gyfalaf dan Statud (GRAGDS)**
Mae hyn yn cynrychioli gwariant y gellir ei gyfalafu'n briodol dan ddarpariaethau statudol, ond nad yw'n creu unrhyw ased diriaethol i'r Cydbwyllgor.

**Rheoli’r Trysorlys**
Y broses y mae'r Cydbwyllgor yn ei dilyn i reoli ei weithgareddau llif arian parod a benthyca.